**Cylchlythyr 20/01**

---

Cylchlythyr:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd CF10 3NQ**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

---

**Tachwedd 2001**

# CYFYNGIADAU CYNLLUNIO AR SYLWEDDAU PERYGLUS

ISBN 0 7504 2825 2 Rhagfyr 2001 Hawlfraint y Goron 2001

**Cynnwys** **Adran**


| | |
|---|---|
| Cefndir | 1 |
| Cyfarwyddeb SEVESO II | 2 - 5 |
| Gofynion cynllunio defnydd tir Cyfarwyddeb SEVESO II | 6 - 8 |
| **Arweiniad i'r gweithdrefnau** | |
| Pwrpas y cyfyngiadau | 9 - 10 |
| Caniatâd cynllunio i ddatblygiad peryglus | 11 - 13 |
| Ardaloedd Cynllunio Symlach ac Ardaloedd Menter | 14 |
| Awdurdodau Sylweddau Peryglus | 15 |
| Caniatâd sylweddau peryglus | 16 - 18 |
| Sylweddau peryglus a meintiau rheoledig | 19 - 27 |
| Meintiau Cyfansymiol | 28 - 31 |
| Ymgeisio am ganiatâd sylweddau peryglus | 32 - 36 |
| Penderfynu ar geisiadau gan yr awdurdod sylweddau peryglus | 37 - 43 |
| Cynlluniau Datblygu | 44 - 45 |
| Ceisiadau a elwir i mewn ac apelau i'r Cynulliad Cenedlaethol | 46 - 48 |
| **Darpariaethau Trosiannol** | |
| Caniatâd sylweddau peryglus tybiedig | 49 - 51 |
| Amodau safonol sy'n berthnasol i ganiatâd tybiedig : maint sefydledig | 52 |
| Amodau safonol sy'n berthnasol i ganiatâd tybiedig: ardal lle y gellir cadw sylwedd | 53 - 55 |
| Amodau safonol sy'n berthnasol i ganiatâd tybiedig: dull er cadw sylweddau | 56 - 60 |
| Datblygiad peryglus a awdurdodwyd cyn gweithredu Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol) 1999 | 61 |
| **Caniatâd tybiedig** | |
| Caniatâd sylweddau peryglus a roddir yn rhinwedd awdurdodiad gan Adran o'r Llywodraeth | 62 |
| **Amrywio a Diddymu caniatâd** | |
| Ceisiadau i ddileu amodau (Adran 13) | 63 - 65 |
| Ceisiadau i barhau â chaniatâd ar ôl newid rheolaeth ar ran o'r tir (Adran 17) | 66 - 68 |
| Diddymu neu addasu caniatâd sylweddau peryglus | 69 - 71 |
| Ffïoedd am geisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus | 72 - 74 |
| Cofrestrau o geisiadau a chaniatâd a roddwyd | 75 - 76 |
| Gofynion iechyd a diogelwch | 77 - 80 |
| **Rhyddhau o ofynion caniatâd sylweddau peryglus** | |
| Presenoldeb dros dro | 82 - 85 |
| Piblinellau | 86 |
| Argyfyngau ar y môr | 87 |
| Safleoedd tirlenwi â gwastraff | 88 |
| Peryglon a greir gan belydriad ïoneiddio | 89 |
| Rhyddhad parthed meintiau bychain o sylweddau peryglus | 90 - 91 |
| Ffrwydron | 92 - 93 |

Argyfyngau ........................................................................................................ 94
Tir y Goron ........................................................................................................ 95 - 97

**Gorfodi**
Dulliau gorfodi eraill ............................................................................................ 98 - 99
Tramgwyddau ...................................................................................................... 100 - 102
Rhybuddion tor-rheolaeth sylweddau peryglus - cyffredinol ................................ 103 - 105
Gorfodi - cysylltu â’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch......................... 106
Cyhoeddi a chyflwyno rhybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus ....................... 107 - 109
Apelau yn erbyn rhybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus ............................... 110
Imiwnedd trosiannol ............................................................................................ 111 - 112
Goblygiadau i awdurdodau lleol o ran eu cyllid a’u llafurlu ................................. 113

**ATODIAD A**

**PERTHYNAS CYFYNGIADAU SYLWEDDAU PERYGLUS Â CHANIATÂD CYNLLUNIO A CHYFYNGIADAU ERAILL**

Rôl Ymgynghorol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ......................... A1 – A9
Piblinellau .......................................................................................................... A10 – A11
Ymgynghori â’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch datblygu
arfaethedig yng nghyffiniau sefydliadau peryglus................................................. A12 – A16
Safleoedd niwclear .............................................................................................. A17 – A18
Cyfleusterau ffrwydron trwyddedig ...................................................................... A19 – A21
Cyfrinachedd ....................................................................................................... A22
Y rhan a gymerir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
mewn apelau yn erbyn penderfyniadau anffafriol ar geisiadau cynllunio
a chaniatâd sylweddau peryglus .......................................................................... A23

## CYFYNGIADAU CYNLLUNIO AR SYLWEDDAU PERYGLUS

### Cefndir

1. Mae'r Cylchlythyr hwn yn disodli Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 20/92 ac yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch y modd y bydd yr weithdrefn caniatâd yn gweithredu ar ôl y newidiadau a gyflwynwyd er mwyn gweithredu gofynion cynllunio Cyfarwyddeb SEVESO II (Cyfarwyddeb 96/82/EC ar reoli peryglon damweiniau mawr). Y bwriad wrth roi cyngor yw cynnig arweiniad. Nid yw'n derfynol; gan y Llysoedd yn unig y ceir datganiad awdurdodol o'r gyfraith.

### Cyfarwyddeb SEVESO II

2. Daeth Cyfarwyddeb 96/82/EC[1] ar reoli peryglon damweiniau sylweddol (Cyfarwyddeb SEVESO II) i rym ar 3 Chwefror 1999. Mae'n disodli Cyfarwyddeb Seveso. Nod y Gyfarwyddeb yw atal damweiniau mawr sy'n ymwneud â sylweddau peryglus a chyfyngu ar eu canlyniadau i bobl ac i'r amgylchedd.

3. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod Wladwriaethau gyflwyno cyfyngiadau ar sefydliadau lle y mae sylweddau peryglus yn bresennol uwchlaw rhai meintiau. Rhestrir y sylweddau peryglus a'r meintiau cymwys yn Atodiad 1 i'r Gyfarwyddeb. Mae'r rhestr yn cynnwys 32 o sylweddau yn ôl eu henwau ond, yn ogystal â hynny, mae'n cynnwys 10 categori generig o sylweddau ac effaith hynny yw ymestyn cwmpas y Gyfarwyddeb i gynnwys amrediad eang iawn o sylweddau. Mae'r cyfyngiadau yn amrywio yn ôl maint y sylweddau peryglus a gedwir neu a ddefnyddir ar y safle.

4. Mae'n ofynnol i'r safleoedd lefel isaf (y rhai hynny y mae maint y sylweddau peryglus yn fwy na lleiafswm cymwys ond yn is na maint uwch) hysbysu'r Awdurdod Cymwys am bresenoldeb sylweddau peryglus ac i sefydlu polisïau atal damweiniau sylweddol. Yn achos sefydliadau lle y ceir y meintiau helaethaf o sylweddau peryglus (a elwir yn safleoedd "lefel uchaf") mae'r gofynion yn cynnwys paratoi adroddiad diogelwch, hawl i'r cyhoedd weld adroddiadau diogelwch, paratoi a phrofi cynlluniau argyfwng ar y safle ac oddi ar y safle, a hysbysu aelodau o'r cyhoedd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ddamwain sylweddol. Mae'r gofynion hyn yn y Gyfarwyddeb yn cael eu gweithredu trwy Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol 1999[2]. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol am y Rheoliadau hyn.

5. Yng Nghymru, yr Awdurdod Cymwys yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu ar y cyd.

---
[1] OJ L 10/13, 14.1.97, t.13
[2] OS 1999 Rhif 743

**Gofynion cynllunio defnydd tir Cyfarwyddeb SEVESO II**

6. Mae Erthygl 12 o'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i gyfyngiadau rheoli defnydd tir fod yn berthnasol i bob sefydliad[3] - boed ar y lefel uchaf neu'r lefel isaf - sydd o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb. Mae'n cyfeirio'n benodol at gynllunio defnydd tir :

   *1. "Bydd yr Aelod Wladwriaethau yn sicrhau y rhoddir sylw i'r amcanion o atal damweiniau sylweddol a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath wrth gynllunio defnydd tir ac/neu mewn polisïau perthnasol eraill. Byddant yn dilyn yr amcanion hyn drwy gyfyngiadau ar :*

   *(a) leoli sefydliadau newydd;*
   *(b) newidiadau i sefydliadau sy'n bodoli sydd yn gynwysedig yn Erthygl 10;*
   *(c) datblygiadau newydd fel cysylltiadau cludiant, mannau a fynychir gan y cyhoedd ac ardaloedd preswyl yng nghyffiniau sefydliadau sy'n bodoli, lle y mae'r lleoliad neu'r datblygiad yn gyfryw fel ei fod yn cynyddu risg neu ganlyniadau damwain sylweddol.*

   *Bydd yr Aelod Wladwriaethau yn sicrhau fod eu polisïau defnydd tir ac/neu'r polisïau perthnasol eraill a'r gweithdrefnau er gweithredu'r polisïau hynny yn rhoi sylw i'r angen tymor-hir i gadw pellterau priodol rhwng sefydliadau a gynhwysir yn y Gyfarwyddeb hon ac ardaloedd preswyl, mannau a ddefnyddir gan y cyhoedd ac ardaloedd o sensitifrwydd neu ddiddordeb naturiol penodol, ac, yn achos sefydliadau sy'n bodoli, i'r angen am fesurau technegol ychwanegol yn unol ag Erthygl 5 fel na chynyddir y risgiau i bobl.*

   *2. Bydd yr Aelod Wladwriaethau yn sicrhau fod yr holl awdurdodau cymwys ac awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am benderfyniadau yn y maes hwn yn sefydlu gweithdrefnau ymgynghori priodol i hwyluso gweithredu'r polisïau a sefydlwyd o dan baragraff 1. Cynllunnir y gweithdrefnau er sicrhau fod cyngor technegol ar gael, un ai fesul achos neu ar sail generig, pryd y gwneir penderfyniadau."*

7 Yng Nghymru, mae system o reoli sylweddau peryglus eisoes ar waith o dan Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 a'r Rheoliadau o dan y Ddeddf honno. Mae'r cyfyngiadau yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau caniatâd sylweddau peryglus am bresenoldeb sylwedd peryglus ar neu dros neu o dan dir mewn maint sydd yn gymaint neu'n fwy na maint rheoledig penodol. Mae'r cyfyngiadau yn rhoi cyfle i awdurdodau sylweddau peryglus ystyried a yw'r storio neu'r defnydd arfaethedig ar faint sylweddol o sylwedd peryglus yn briodol mewn lleoliad penodol, gan roi ystyriaeth i'r risgiau sy'n codi i bobl yn yr ardal o amgylch ac i'r amgylchedd. Rhaid i'r awdurdod sylweddau peryglus ymgynghori â chyrff penodol, yn cynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth yr Amgylchedd cyn penderfynu ar unrhyw gais am ganiatâd. Os cytunir i ganiatáu,

[3] mae sefydliad yn golygu'r hyn a ddiffinnir yng Nghyfarwyddeb Seveso II, h.y. "bydd "sefydliad" yn golygu'r ardal gyfan dan reolaeth gweithredwr lle mae sylweddau peryglus yn bresennol mewn un neu ragor o fannau, gan gynnwys isadeilwaith cyffredin neu berthnasol"

gellir sefydlu cylchfa ymgynghori lle y bydd cynigion ar gyfer datblygu pellach yn cael eu hatgyfeirio hefyd i ymgynghoredigion er mwyn ystyried yr effeithiau posibl ar ddiogelwch y cyhoedd. Roedd rhai cyfatebiaethau rhwng y gweithdrefnau presennol sy'n ofynnol o dan y gweithdrefnau caniatâd sylweddau peryglus a gofynion y Gyfarwyddeb parthed cynllunio defnydd tir. Felly gwnaed newidiadau i Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 a Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992 (OS 1992 Rhif 656) er mwyn gweithredu gofynion cynllunio defnydd tir Cyfarwyddeb SEVESO II. Gwnaed newidiadau hefyd i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995[4] a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu) 1991[5]. Cyhoeddwyd y newidiadau hyn yn Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol) 1999 (OS 1999 Rhif 981)

8. Ystyr "Deddf 1990" yn y Cylchlythyr hwn yw Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, fel y'i newidiwyd trwy Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, Deddf Cynllunio a Iawndal 1991, a Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993; ystyr "y brif Ddeddf" yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1992 ac ystyr "Rheoliadau 1999" yw Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol) 1999.

## ARWEINIAD I'R GWEITHDREFNAU

### *Pwrpas y Cyfyngiadau*

9. Cynlluniwyd y cyfyngiadau i reoli presenoldeb sylweddau peryglus fel na ellir eu cadw neu eu defnyddio mewn meintiau mwy na'r hyn a ddynodir hyd nes caiff yr awdurdodau cyfrifol gyfle i asesu risg damwain a'i chanlyniadau i bobl yn yr ardal o amgylch ac i'r amgylchedd. Maent yn ategu, ond nid yn diystyru nac yn dyblygu, gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a'i darpariaethau statudol perthnasol (a ddiffinnir yn adran 53 y Ddeddf honno) a orfodir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Hyd yn oed ar ôl cymryd pob cam ymarferol rhesymol i sicrhau cydymffurfiad â gofynion Deddf 1974, fe erys risg damwain gweddillol na ellir ei lwyr ddileu. Bydd y cyfyngiadau hyn yn sicrhau fod y risg gweddillol hwn i bobl yn yr ardal o amgylch ac i'r amgylchedd yn derbyn sylw priodol trwy'r system cynllunio defnydd tir.

10. Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gallu gweithredu rhai graddau o reolaeth dros bresenoldeb sylweddau peryglus trwy'r system rheoli datblygiad, lle y mae presenoldeb o'r fath yn uniongyrchol gysylltiedig â datblygiad arfaethedig. Ond fe geir sefyllfaoedd lle y gellir dod â sylweddau peryglus i safle, neu eu defnyddio'n wahanol y tu mewn iddo, heb fod unrhyw ddatblygiad cysylltiedig y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Trwy'r darpariaethau hyn gellir gweithredu cyfyngiadau penodol ar bresenoldeb sylweddau peryglus pa un a geir datblygiad cysylltiedig ai peidio. Bydd awdurdodau sylweddau peryglus yn gallu penderfynu, yng ngolwg y risg gweddillol, ac ar ôl ystyried defnyddiau presennol ac arfaethedig y safle a'r amgylchedd o'i gwmpas, a yw presenoldeb arfaethedig y sylwedd peryglus yn ddefnydd tir priodol ar y safle hwnnw.

[4] OS 1995 Rhif 419
[5] OS 1991 Rhif 2794

## *Caniatâd Cynllunio I Ddatblygiad Peryglus*

11. Nid yw'r gofyniad am ganiatâd sylweddau peryglus yn disodli'r angen i sicrhau caniatâd cynllunio lle y mae datblygu tir hefyd yn gysylltiedig. Fe all hyn ddigwydd, er enghraifft, pryd y bwriedir codi adeiladau i storio neu brosesu sylweddau peryglus. Pan fydd angen caniatâd cynllunio a chaniatâd sylweddau peryglus, bydd rhaid cyflwyno dau gais ar wahân a bydd rhaid dilyn y gofynion statudol sy'n berthnasol i'r ddau. Fe allai fod yn amhosibl, neu'n anymarferol, gweithredu ar un caniatâd heb sicrhau'r llall. Dymuniad datblygwyr ac awdurdodau lleol, cyhyd ag y gellir, fydd sicrhau fod ceisiadau cysylltiedig am ganiatâd sylweddau peryglus ac am ganiatâd cynllunio yn cael eu trin gyda'i gilydd. Bydd hyn yn sicrhau y caiff y ceisiadau eu penderfynu'n gynt ac yn osgoi dyblygu diangen wrth ddarparu gwybodaeth.

12. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd rhaid gwneud penderfyniadau tebyg ynghylch y ddau gais, oherwydd mae'n debygol y ceir ystyriaethau fydd o bwys i un cais ond nid i'r llall. Er enghraifft, fe allai awdurdod benderfynu, ar ôl ystyried y risgiau posibl i'r gymuned leol sy'n deillio o bresenoldeb arfaethedig sylwedd peryglus, nad oes rheswm da dros wrthod caniatâd. Ond yn eu rôl fel awdurdod cynllunio lleol fe allent fod o'r farn y dylid gwrthod caniatâd cynllunio i ddatblygiad cysylltiedig oherwydd ystyriaeth cynllunio ehangach, e.e. effaith niweidiol adeilad arfaethedig ar yr olygfa leol, neu drefniadau mynediad annigonol. Mewn amgylchiadau o'r fath, cwbl briodol fyddai gwneud penderfyniadau gwrthgyferbyniol ynghylch y gwahanol geisiadau.

13. Bydd awdurdodau'n dymuno sicrhau na fydd unrhyw benderfyniadau cysylltiedig o'r fath yn anghyson â'i gilydd, fel y gallai ddigwydd trwy orfodi amodau sy'n cynnwys gofynion sy'n groes i'w gilydd. Ar ben hynny, hyd yn oed lle nad yw amodau caniatâd cynllunio yn mynd yn groes i amodau caniatâd sylweddau peryglus, fe allai dryswch godi oherwydd gwahaniaethau yn y gofynion manwl. Cyhyd ag y gellir, bydd yn ddymunol ac yn briodol gan mwyaf arfer rheolaeth fanwl dros y modd y mae sylwedd peryglus i'w gadw neu ei ddefnyddio trwy amodau caniatâd sylweddau peryglus.

## *Ardaloedd Cynllunio Symlach ac Ardaloedd Menter*

14. Er y gellir cyflawni datblygiad ar dir o fewn Ardal Gynllunio Symlach neu Ardal Fenter heb yr angen, mewn rhai amgylchiadau, i roi caniatâd cynllunio yn ffurfiol, ni roddir rhyddhad mewn perthynas â chaniatâd sylweddau peryglus. Felly, lle y byddai bwriad o fewn ardal o'r fath yn golygu presenoldeb sylwedd peryglus yn y maint rheoledig neu uwchlaw hynny, rhaid sicrhau caniatâd sylweddau peryglus yn y modd arferol.

*Awdurdodau Sylweddau Peryglus*

15. Diffinnir awdurdodau sylweddau peryglus yn adrannau 1 a 3 o Ddeddf 1990 (diddymwyd adran 2 trwy Adran 162 (2) ac Atodlen 16, Rhan VII i Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990). Yng Nghymru yr awdurdod sylweddau peryglus yw'r Cyngor Sir lle y mae'r tir, heblaw yn achos tir mewn Parc Cenedlaethol am mai Awdurdod y Parc Cenedlaethol fydd yr awdurdod sylweddau peryglus bryd hynny.

*Caniatâd Sylweddau Peryglus*

16. Mae caniatâd sylweddau peryglus yn ofynnol am bresenoldeb sylwedd peryglus ar, dros neu o dan dir oni bai fod maint cyfansymiol y sylwedd(au) sydd yn bresennol yn llai na'r maint rheoledig i'r sylwedd hwnnw (isadrannau (1) a (2) yn adran 4 o Ddeddf 1990).

17. Wrth benderfynu maint cyfansymiol (gweler paragraffau 28 - 31) y sylwedd sydd yn bresennol ar dir (tir A) rhoddir ystyriaeth hefyd i'r maint o unrhyw sylwedd(au) peryglus a ddelir ar, dros neu o dan dir <u>arall</u> (neu mewn neu ar unrhyw ran o adeiladwaith) a reolir gan yr un person ac sy'n ffurfio un "sefydliad" gyda thir A (gweler adran 4(2)(aa)). Mae isadrannau (2)(b) a (2)(c) o adran 4 yn cyfeirio'n benodol at dir neu adeiladweithiau eraill sydd o fewn 500 metr i'r tir (yn achos adeiladeddau mae hyn yn cynnwys unrhyw ran sydd o fewn 500 metr) sydd yn ddarostyngedig i'r cais am ganiatâd, ac y bydd rhaid eu cynnwys bob amser mewn unrhyw gyfrifiad i bennu'r maint cyfansymiol sydd yn bresennol. Mae is-adran (2)(aa) yn pennu nad oes unrhyw derfyn damcaniaethol i'r pellter a gaiff fod rhwng darnau o dir y gellir ystyried eu bod yn ffurfio "sefydliad" unigol. Fe ddylai fod yn amlwg yn y rhan fwyaf o achosion beth sy'n ffurfio'r "sefydliad". Ond, er enghraifft, mewn achosion lle mae cyfleusterau a rennir gan sefydliadau eraill yn gysylltiedig, fe allai fod yn fwy anodd penderfynu hyn.

18. Nid yr un o reidrwydd fydd y sawl sy'n rheoli'r tir a'r sawl sy'n berchennog cyfreithiol arno. Er enghraifft, fe allai safle fod o dan reolaeth tenant ar brydles fer yn hytrach na'r rhydd-ddeiliad. Mae unrhyw ddwy gorfforaeth gorfforedig i'w trin fel un person os yw un yn israddol i'r llall, neu os yw'r ddwy yn israddol i'r un gorfforaeth gorfforedig (Adran 39(3) Deddf 1990).

*Sylweddau Peryglus a Meintiau Rheoledig*

19. Ceir rhestr o sylweddau a meintiau rheoledig y mae angen caniatâd sylweddau peryglus ar eu cyfer yn Atodlen 1 i Reoliadau 1992 fel y'u diwygiwyd trwy Reoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol 1999 [COMAH]). Rhestrir sylweddau peryglus yng Ngholofn 1 yr Atodlen a'r maint rheoledig perthnasol yng Ngholofn 2.

20. Mae tair rhan i'r Atodlen. Mae Rhan A yn cynnwys sylweddau peryglus wrth eu henwau, mae Rhan B yn berthnasol i sylweddau sydd yn dod o fewn categorïau sylweddau generig, a bwriedir Rhan C i ymdrin â sefyllfa lle y mae, neu y gallai, sylwedd peryglus yn un ai Rhan A neu Ran B yr Atodlen fod yn bresennol, ond <u>dim ond o ganlyniad i golli rheolaeth mewn proses gemegol ddiwydiannol</u>. Yn y cyfryw achos, bydd angen caniatâd ar gyfer y sylweddau a ddefnyddir yn y broses gemegol ddiwydiannol berthnasol (gweler paragraffau 25 –27).

21. Mae'r sylweddau a geir yn Rhan A yn cynnwys yr holl sylweddau yn ôl eu henwau o Ran I o Atodiad I i Gyfarwyddeb SEVESO II. Yn achos y sylweddau hyn (a rifwyd 1-32 yn yr Atodlen) y maint rheoledig yw'r maint trothwy isaf a nodir yn y Gyfarwyddeb ac eithrio lle'r oedd un sylwedd yn ddarostyngedig gynt i ganiatâd sylweddau peryglus ar faint rheoledig ***is***. Yn yr achosion hyn, fe gadwyd y maint rheoledig is. Mae Rhan A hefyd yn cynnwys nifer o sylweddau peryglus (a rifwyd 33-63 yn yr Atodlen) nas cynhwyswyd yn sylweddau yn ôl eu henwau yn y Gyfarwyddeb. Sylweddau yw'r rhain a fyddai, yn gyffredinol, yn dod o fewn un o'r categorïau o sylweddau a nodir yn Rhan 2 o Atodlen I i Gyfarwyddeb SEVESO II (Categorïau o Sylweddau a Pharatoadau). Bu'n ofynnol gynt i sicrhau caniatâd sylweddau peryglus i'r sylweddau hyn am feintiau rheoledig sydd yn *is* na'r rhai fydd yn berthnasol i'r categorïau o sylweddau y byddent yn perthyn iddynt. Felly, er mwyn sicrhau nad oes gostyngiad yn y safonau iechyd a diogelwch presennol, fe gynhwysir y sylweddau hyn fel sylweddau yn ôl eu henwau ac ar y meintiau rheoledig a oedd yn berthnasol cynt. Er enghraifft, fe gynhwysir hydrogen selenid (sylwedd rhif 35) fel sylwedd yn ôl ei enw gyda maint rheoledig o 1 dunnell, sef y lefel lle'r oedd angen caniatâd cynt. O'i ystyried o fewn ei gategori sylweddau (gwenwynig) ni fyddai angen caniatâd ond am bresenoldeb o 50 tunnell neu fwy.

22. Mae Rhan B yn cynnwys yr holl gategorïau o sylweddau peryglus a nodir yn Rhan 2 o Atodlen I o Gyfarwyddeb SEVESO II. Y meintiau rheoledig sydd yn berthnasol yw'r meintiau cymhwysol is a nodir yn y Gyfarwyddeb ar gyfer y categorïau sylweddau hyn. Cynhwysir yma y sylweddau peryglus a oedd gynt yn ddarostyngedig i ganiatâd ar feintiau rheoledig sydd yn gymaint neu'n fwy na'r trothwy cymhwysol perthnasol o'r Gyfarwyddeb. Enghraifft o hyn yw acrolein (2-propenal). Gynt, roedd angen caniatâd sylweddau peryglus ar gyfer symiau dros 200 tunnell. Mae acrolein wedi'i ddosbarthu fel sylwedd gwenwynig gyda maint rheoledig o 50 tunnell, ac erbyn hyn felly mae angen caniatâd ar y lefel is.

23. Fe all sylweddau a roddir fel sylweddau yn ôl eu henwau yn Rhan A yr Atodlen ddod hefyd o fewn un neu ragor o'r categorïau o sylweddau peryglus yn Rhan B yr Atodlen. Er enghraifft, mae clorin yn sylwedd a restrir yn ôl ei enw yn Rhan A gyda maint rheoledig o 10 tunnell. Mae hefyd yn dod o fewn y categorïau sylweddau "gwenwynig" a "peryglus i'r amgylchedd" yn Rhan B yr Atodlen sydd â meintiau rheoledig o 50 a 200 tunnell, yn y drefn honno. Mewn achosion o'r fath, y maint rheoledig i'r sylwedd hwnnw bob amser fydd y maint rheoledig a restrir yn Rhan A yr Atodlen, er enghraifft, yn achos clorin, 10 tunnell. (Gweler Nodyn 3 yn y Nodiadau i Rannau A a B o Atodlen 1.)

24. Lle nad yw sylwedd yn sylwedd a roddir yn ôl ei enw, ond yn un sydd yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau sylweddau yn Rhan B yr Atodlen, y maint

rheoledig *isaf* fydd yr un sy'n berthnasol i'r sylwedd hwnnw. (Gweler Nodyn 2 yn y Nodiadau i Rannau A a B yn Atodlen 1.)

25. Bwriedir Rhan C yr Atodlen i ymdrin â sefyllfa lle y gallai sylweddau peryglus a restrir yn Rhan A, neu sy'n dod o fewn categori yn Rhan B, fod yn bresennol mewn maint sydd gymaint neu'n fwy na'r meintiau rheoledig dim ond o ganlyniad i golli rheolaeth ar broses gemegol ddiwydiannol. Hwn yw'r math o ddigwyddiad a gafwyd yn Seveso yn yr Eidal ac a arweiniodd at Gyfarwyddeb Seveso. Rhoddir enghraifft isod o achos lle y gellid cymhwyso Rhan C.

26. Bwrier fod sylweddau W, X a Y yn cael eu defnyddio mewn proses gemegol i gynhyrchu sylwedd Z, trwy'r prosesau gweithredu rheoledig arferol. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl na fydd yn ofynnol i'r gweithredwr sicrhau caniatâd sylweddau peryglus. Y rheswm am hynny, o bosibl, yw nad yw'r sylweddau yn dod o fewn Rhan A na Rhan B yr Atodlen neu, os ydynt, eu bod heb fod yn bresennol mewn maint sy'n gymaint neu'n fwy na'r maint rheoledig sy'n berthnasol iddynt. Fodd bynnag, os digwyddir colli rheolaeth ar y broses gemegol ddiwydiannol, fe allai sylweddau W, X a Y adweithio'n wahanol i gynhyrchu sylwedd arall, S, sydd o fewn Rhan A neu Ran B yr Atodlen ac mewn maint sydd yn gymaint neu'n fwy na'r maint rheoledig i'r sylwedd hwnnw. Mewn achos o'r fath fe fyddai angen caniatâd ar gyfer sylweddau W, X ac Y.

27. Ni fwriedir i'r awdurdod sylweddau peryglus roi caniatâd am sylweddau a gynhyrchir pan gollir rheolaeth ar broses gemegol ddiwydiannol. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r gweithredwr sicrhau caniatâd am bresenoldeb y sylwedd(au) a ddefnyddir yn y cyfryw broses gemegol. Y maint rheoledig i'r sylweddau hyn fydd y maint o'r sylweddau hynny y gallai eu presenoldeb arwain at gynhyrchu sylwedd S mewn maint sy'n gymaint neu'n fwy na'r maint rheoledig perthnasol. Cydnabyddir y gallai fod yn anodd i weithredwyr ragfynegi'n fanwl y math a'r maint o sylwedd a allai gael ei gynhyrchu pe collid rheolaeth ar broses gemegol ddiwydiannol. Ond, er hynny, mae'n bwysig iddynt geisio gwneud hynny a sicrhau caniatâd, yn ôl y gofyn.

### *Meintiau Cyfansymiol*

28. Mae angen caniatâd bob amser pan fydd maint cyfansymiol sylwedd peryglus yn bresennol mewn maint sy'n gymaint neu'n fwy na'r maint rheoledig sy'n berthnasol iddo. (Mewn rhai amgylchiadau gellir diystyru meintiau bach o sylweddau peryglus sydd heb fod yn uwch na 2% o'r maint rheoledig, felly gellir mynd uwchlaw'r maint rheoledig heb fod angen caniatâd – gweler paragraffau 90-91).

29. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol sicrhau caniatâd hefyd er bod y maint sy'n bresennol yn *is* na'r maint rheoledig i'r sylwedd neu'r categori sylwedd hwnnw. Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Chyfarwyddeb SEVESO II, rhaid cymryd i ystyriaeth gyfanswm yr *holl* sylweddau peryglus sy'n bresennol mewn sefydliad mewn meintiau sy'n llai na'r maint rheoledig i'r sylweddau unigol neu gategorïau sylweddau wrth benderfynu a yw caniatâd yn ofynnol i rai neu'r cwbl ohonynt. (Gweler Nodiadau 4 a 5 yn y Nodiadau i Rannau A a B o Atodlen 1).

30. Er mwyn penderfynu a yw caniatâd yn ofynnol yn yr amgylchiadau hyn, eir ati i adio at ei gilydd y sylweddau peryglus sy'n bresennol mewn meintiau sy'n llai na'u meintiau rheoledig yn unol â rheol adio (gweler Nodiadau 4 a 5 yn y Nodiadau i Rannau A a B o Atodlen 1). Pan fydd nifer o sylweddau sy'n golygu math tebyg o berygl, e.e. sylweddau gwenwynig neu wenwynig iawn neu rai ffrwydrol a fflamadwy, yn bresennol gyda'i gilydd mewn meintiau sy'n is na'r maint rheoledig perthnasol i'r sylwedd neu'r categori sylwedd hwnnw, fe fynegir y meintiau sy'n bresennol fel ffracsiynau rhannol o'u meintiau rheoledig a'u hadio at ei gilydd. Os yw'r rhain yn adio i wneud cyfanswm o 1 neu fwy, mae'n ofynnol cael caniatâd i ***bob un*** o'r sylweddau a gynhwyswyd yn y swm. Ni fydd sylweddau â pheryglon anghysylltiedig yn cael eu hadio at ei gilydd, felly ni adir sylweddau gwenwynig at rai fflamadwy. Dyma ddwy enghraifft o'r modd y cymhwysir y rheol adio:

*Enghraifft 1: Mae'r sylweddau canlynol yn bresennol gyda'i gilydd mewn sefydliad*

| **Sylwedd** | **Maint yn bresennol** | **Maint Rheoledig** |
|---|---|---|
| *Bromin* | *21.00 tunnell* | *20.00 tunnell* |
| *Clorin* | *3.00 tunnell* | *10.00 tunnell* |
| *Hydrogen selenid* | *0.5 tunnell* | *1.00 tunnell ** |
| *Gwenwynig iawn* | *1.00 tunnell* | *5.00 tunnell* |
| *Gwenwynig* | *5.00 tunnell* | *50.00 tunnell* |

*Mae bromin yn bresennol mewn maint sy'n fwy na'i faint rheoledig ac mae angen caniatâd sylweddau peryglus ar ei gyfer. Nid oes yr un o'r sylweddau neu'r categorïau sylwedd eraill sydd yn bresennol mewn meintiau sy'n fwy na'u meintiau rheoledig. Ond maent oll yn meddu ar nodweddion perygl tebyg. Maent un ai'n sylweddau gwenwynig iawn neu wenwynig ac yn dod o fewn categorïau 1, 2 a 10 Rhan B Atodlen 1. Felly, rhaid eu hystyried gyda'i gilydd. O'i fynegi fel ffracsiynau rhannol mae'r swm fel a ganlyn*

*3/10 + 0.5/50* + 1/5 + 5/50 = 0.30 + 0.01 + 0.10 + 0.20 = 0.61*

*Ar ôl eu hadio mae'r swm yn llai nag 1, felly nid oes angen caniatâd i unrhyw un o'r sylweddau hyn, heblaw am bromin (* gweler paragraff 31 isod am esboniad o'r maint rheoledig a ddefnyddiwyd i'r sylwedd hwn yn y cyfrifiad hwn.)*

*Enghraifft 2*

| **Sylwedd** | **Maint yn bresennol** | **Maint Rheoledig** |
|---|---|---|
| *Bromin* | *15.00 tunnell* | *20.00 tunnell* |
| *Clorin* | *3.00 tunnell* | *10.00 tunnell* |
| *Hydrogen selenid* | *0.50 tunnell* | *1.00 tunnell ** |
| *Ethylen ocsid* | *2.00 tunnell* | *5.00 tunnell* |
| *Propylen ocsid* | *1.00 tunnell* | *5.00 tunnell* |
| *Gwenwynig iawn* | *1.00 tunnell* | *5.00 tunnell* |
| *Gwenwynig* | *5.00 tunnell* | *50.00 tunnell* |
| *Ocsideiddiol* | *3.00 tunnell* | *50.00 tunnell* |

*Nid oes yr un o'r sylweddau sy'n bresennol mewn meintiau sy'n fwy na'u meintiau rheoledig unigol. Ond rhaid ystyried sylweddau sydd o fewn grwpiau perygl cyffredin o dan y rheol adio. Mae bromin, clorin, hydrogen selenid a sylweddau gwenwynig iawn a gwenwynig yn meddu ar beryglon cyffredin ac yn dod o fewn categorïau 1, 2 a 10 yn Rhan B o Atodlen 1. Fe'u hadir at ei gilydd. O'i fynegi fel ffracsiynau rhannol y swm yw*

*15/20 + 3/10 + 0.5/50* + 1/5 + 5/50 = 0.75 + 0.30 + 0.01 + 0.20 + 0.10 = 1.36*

*Ar ôl eu hadio mae'r swm yn fwy nag 1, felly yn achos y pum sylwedd fe dybir fod y maint rheoledig yn bresennol a byddai'n ofynnol sicrhau caniatâd sylweddau peryglus i bob un ohonynt. Byddai unrhyw ganiatâd a roddir gan yr awdurdod sylweddau peryglus yn un ar gyfer maint y sylwedd peryglus sydd yn bresennol ac nid y maint rheoledig y tybir ei fod yn bresennol.*

*Mae ethylen ocsid, propylen ocsid a'r sylwedd ocsideiddiol hefyd yn meddu ar beryglon cyffredin. Maent yn dod o fewn categorïau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 o Ran B, Atodlen 1 ac mae'r rhain hefyd yn cael eu hadio at ei gilydd. O'i fynegi fel ffracsiynau rhannol y cyfrifiad yw*
*2/5 + 1/5 + 3/50 = 0.40 + 0.20 + 0.06 = 0.66*

*Gan fod y swm yn llai na 1, nid oes angen caniatâd i'r un o'r tri sylwedd hyn.*

31. I ddiben y rheol adio, y maint rheoledig yw hwnnw a restrir yng ngholofn 2 o un ai Rhan A neu Ran B o Atodlen 1 y Rheoliadau, yn amodol ar yr eithriadau canlynol. Yn achos sylweddau yn Rhan A o Atodlen 1, lle y dangosir maint mwy ar wahân yng ngholofn 3, y maint hwnnw fydd y maint rheoledig **i ddibenion y rheol adio yn unig**. Er mwyn cadw at Reoliadau COMAH yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mae'r meintiau rheoledig (uwch) a nodir yn y Gyfarwyddeb yn cael eu defnyddio yn y rheol adio er bod maint rheoledig is wedi cael ei gadw wrth benderfynu a oes angen caniatâd. Gallai gwneud fel arall olygu bod gweithredwyr yn gorfod cael caniatâd sylweddau peryglus er na fyddai'r sefydliad yn dod o fewn cwmpas Cyfarwyddeb Seveso II.

***Ymgeisio am Ganiatâd Sylweddau Peryglus***

32. Cyflwynir ceisiadau i'r awdurdod sylweddau peryglus fydd yn penderfynu ar y cais.

33. Cyn gwneud cais am ganiatâd sylweddau peryglus, rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais trwy roi rhybudd mewn papur newydd lleol; rhybudd ar y safle; a rhybudd i unrhyw rai heblaw'r ymgeisydd sy'n berchennog y tir dan sylw[6]. Rhaid i'r rhybuddion fod yn unol â'r ffurfiau a ragnodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau. Mae hyn yn rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod sylweddau peryglus. Yn ystod y cyfnod a roddir ar gyfer cyflwyno sylwadau, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd sicrhau fod copi o'r cais ar gael i'w archwilio yn yr ardal.

34. Rhaid cyflwyno cais am ganiatâd un ai ar Ffurflen 1 neu Ffurflen 2, a ragnodir yn Atodlen 2 y Rheoliadau. Pwrpas defnyddio ffurflenni rhagnodedig yw sicrhau cysondeb; i gynorthwyo'r awdurdodau hynny sydd ond yn derbyn ychydig iawn o geisiadau; ac i sicrhau y bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn derbyn yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i gyflawni asesiad priodol ar y risgiau sy'n deillio o fwriad penodol. Mae Ffurflen 1 ar gyfer ceisiadau cyffredinol am ganiatâd sylweddau peryglus. Mae Ffurflen 2 yn berthnasol i geisiadau i ddileu amodau neu barhau â chaniatâd pryd y ceir newid rhannol yn y rheolaeth ar safle. Dylai awdurdodau sylweddau peryglus sicrhau fod

[6] mae "perchennog" yn golygu person sydd â budd yn y tir fel rhydd-ddeiliad neu denant lle mae 7 mlynedd yn weddill o gyfnod y denantiaeth.

ganddynt gyflenwad digonol o'r holl ffurflenni a ragnodwyd. Fodd bynnag, mae rhyddid i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau ar ffurflenni a wnaethant hwy eu hunain, os dymunant, ar yr amod fod ffurflenni o'r fath yn unol â'r ffurf a ragnodwyd.

35. Wrth gyflwyno cais, mae'n ofynnol i ymgeiswyr restru unrhyw sylweddau a nodir wrth eu henwau yn Rhan A o Atodlen 1 y maent yn gofyn caniatâd sylweddau peryglus ar eu cyfer. Pan fyddant yn gofyn caniatâd parthed sylweddau sy'n dod o fewn Rhannau B neu C yr Atodlen, cânt eu rhestru o dan y categori neu'r disgrifiad perthnasol neu gallant ddewis eu rhestru'n benodol wrth eu henwau. Er na fydd hyn bob amser yn ymarferol, fe ddylid annog ymgeiswyr i restru'r sylweddau unigol a'r meintiau y gofynnir caniatâd amdanynt. Bydd hyn yn sicrhau fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth yr Amgylchedd â mwy o allu i asesu unrhyw risgiau oddi wrth bresenoldeb arfaethedig y sylweddau peryglus a chymhwyso'r amodau perthnasol. At ddibenion asesu risgiau, bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn asesu unrhyw sylweddau cyffredinol amhenodol ar sail sylweddau enghreifftiol o fewn pob categori.

36. Pan fydd awdurdod sylweddau peryglus yng Nghymru yn dymuno sicrhau caniatâd sylweddau peryglus iddo'i hun, bydd yn ymgeisio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad). Dylai'r cais gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn y ffurflen ragnodedig a chan Reoliadau 5-8 yn Rheoliadau 1992 (Gweler Rheoliad 26 yn Rheoliadau 1992).

***Penderfynu ar Geisiadau gan yr Awdurdod Sylweddau Peryglus***

37. Oni bai fod yr ymgeisydd yn cytuno ar gyfnod estynedig, mae gan awdurdodau sylweddau peryglus 8 wythnos oddi ar dderbyn cais dilys i benderfynu arno. Os na roddir penderfyniad ymhen y cyfnod o 8 wythnos, neu unrhyw gyfnod estynedig a gytunwyd, bydd gan yr ymgeisydd hawl i apelio i'r Cynulliad yn erbyn methiant yr awdurdod sylweddau peryglus i benderfynu'r cais (Rheoliad 11(3) yn Rheoliadau 1992 ac Adran 21(2) o Ddeddf 1990).

38. Cyn penderfynu ar gais am ganiatâd, mae'n ofynnol i'r awdurdod sylweddau peryglus ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r cyrff eraill a restrir yn rheoliad 10[7]. Ymhlith y rhain y mae'r awdurdod tân a'r awdurdod amddiffyn sifil, awdurdodau cynllunio perthnasol eraill a chyfleustodau cyhoeddus. Pan wêl yr awdurdod sylweddau peryglus ei bod yn bosibl y ceir effaith ar sensitifrwydd neu ddiddordeb naturiol arbennig, rhaid ymgynghori hefyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Rhaid i'r awdurdod sylweddau peryglus roi nid llai na 28 niwrnod i'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy gyflwyno eu sylwadau (Rheoliad 11).

39. Rôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth yr Amgylchedd yw cynghori'r awdurdod sylweddau peryglus ynghylch y risgiau sy'n deillio o bresenoldeb sylweddau peryglus. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn meddu ar yr arbenigedd i asesu'r risgiau sy'n dod i ran pobl yn y cyffiniau trwy bresenoldeb sylwedd peryglus; mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn

---

[7] Nid yw'r rheidrwydd i ymgynghori yn gymwys lle mae'r corff (ac eithrio'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Asiantaeth yr Amgylchedd ac, mewn rhai achosion, Cyngor Cefn Gwlad Cymru) wedi dweud nad yw'n dymuno cael ei gysylltu at ddibenion ymgynghori.

meddu ar yr arbenigedd i asesu a chynghori ynghylch y risgiau tebygol a geir i'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad ynghylch a yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb sylweddau peryglus, un ai i bobl neu i'r amgylchedd, yn oddefadwy yng nghyd-destun defnyddiau presennol a phosibl tir cyfagos yn un a ddylai gael ei wneud gan awdurdod sylweddau peryglus.

40. Pan fydd yr awdurdod sylweddau peryglus wedi gwneud penderfyniad, mae'n ofynnol iddo roi gwybod am y penderfyniad i'r ymgeisydd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Asiantaeth yr Amgylchedd, perchenogion sydd wedi gwneud sylwadau, unrhyw ymgynghoredigion eraill a gyflwynodd sylwadau iddo, ac i'r cyngor sir priodol lle nad yw'r cyngor hwnnw yn awdurdod sylweddau peryglus. Os yw'n gwrthod caniatâd, neu'n ei roi dan amodau, mae'n ofynnol i'r awdurdod sylweddau peryglus roi'r rhesymau llawn dros y penderfyniad, gan gynnwys unrhyw amodau, a chyfeirio at yr hawl i apelio i'r Cynulliad (Rheoliad 11 o Reoliadau 1992).

41. Pan fydd cais yn ymwneud â mwy nag un sylwedd, fe all yr awdurdod sylweddau peryglus wneud gwahanol benderfyniadau mewn perthynas â phob sylwedd (Adran 9(3) Deddf 1990).

42. Wrth roi caniatâd mae'n ofynnol i'r awdurdod sylweddau peryglus ddisgrifio'r tir y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef a'r sylwedd(au) y mae'n ymwneud ag ef; ac i ddatgan, mewn perthynas â phob sylwedd, beth yw'r maint mwyaf o bob un a gaiff fod yn bresennol ar unrhyw adeg (Adran 9(4) Deddf 1990). Gwneir darpariaeth benodol ynghylch yr amodau y gellir eu rhoi (adran 10(1)), a hynny heb anfantais i hawl cyffredinol yr awdurdod sylweddau peryglus i osod amodau (adran 9(1)). Dylid nodi nad oes modd gorfodi unrhyw amod sy'n ymwneud â'r modd y cedwir neu y defnyddir sylwedd peryglus oni bai fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cynghori y dylai unrhyw ganiatâd fod yn ddarostyngedig i amod(au) o'r fath. Fodd bynnag, lle'r awdurdodau sylweddau peryglus yw gorfodi amodau o'r fath ac nid yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Gweler hefyd baragraff 106).

43. Pan fydd awdurdod sylweddau peryglus yn ystyried gosod amod sy'n cyfyngu ar y man lle y caiff sylwedd fod yn bresennol o fewn safle, dylai geisio osgoi gosod cyfyngiadau diangen ar bresenoldeb meintiau cymharol fach o'r sylwedd hwnnw mewn mannau eraill ar y safle. Er enghraifft, i ddibenion amodau safonol caniatâd <u>tybiedig</u>, mae rheoliad 16(1) yn darparu y gellir storio sylwedd peryglus mewn cynhwysydd symudol mewn rhan wahanol o safle i'r un lle y'i cedwid cyn hynny, ar yr amod nad yw maint y sylwedd a storir yn y rhan honno yn fwy na 10 y cant o faint rheoledig y sylwedd. Mae hyn yn fodd i osgoi sefyllfa lle y bydd presenoldeb maint cymharol fach o sylwedd mewn cynhwysydd symudol mewn rhan wahanol o'r safle - efallai ond er mwyn cynnal a chadw cegin staff - yn anghydffurfio â'r amodau safonol. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau'n dymuno ystyried mabwysiadu dull gweithredu tebyg, gan wneud rhyddhad addas, lle y maent yn dymuno cyfyngu trwy amod ar leoliad sylwedd o fewn safle. Fel arall gallai effeithiau'r amod fod yn afraid o feichus ac felly'n afresymol. Dylai awdurdodau sylweddau peryglus hefyd nodi y gall maint bach o sylwedd peryglus – sydd heb fod yn uwch na 2% o faint rheoledig y sylwedd – gael ei ddiystyru mewn rhai amgylchiadau wrth gyfrif maint y sylwedd peryglus sy'n bresennol ar safle (gweler paragraff 90).

### *Cynlluniau Datblygu*

44. Wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus, neu geisiadau cynllunio am ddatblygu yn neu yng nghyffiniau safleoedd lle y mae sylweddau peryglus yn bresennol, rhaid i awdurdodau roi sylw i ddarpariaethau'r cynllun datblygu, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol i'r cais (Adran 9 o Ddeddf 1990).

45. Er mwyn cymryd Erthygl 12.1 o Gyfarwyddeb SEVESO II i ystyriaeth, mae Rheoliad 9 yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio, wrth lunio eu polisïau cyffredinol yn Rhan 1 o gynllun datblygu unedol, yn rhoi sylw i amcanion y Gyfarwyddeb, sef:

> *atal damweiniau sylweddol a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath i bobl ac i'r amgylchedd.*
>
> *cadw, yn y tymor hir, bellter priodol rhwng sefydliadau a mannau preswyl, mannau a ddefnyddir gan y cyhoedd a mannau o sensitifrwydd neu ddiddordeb naturiol arbennig.*
>
> *mewn perthynas â sefydliadau presennol, gweithredu mesurau technegol ychwanegol fel na fydd y risgiau i bobl yn cynyddu.*

### *Ceisiadau a Elwir I mewn ac Apelau i'r Cynulliad Cenedlaethol*

46. O dan adran 20 o Ddeddf 1990, gall y Cynulliad fynnu y bydd cais yn cael ei atgyfeirio iddo i'w benderfynu ganddo. Ni ddigwydd hyn ond yn eithriadol iawn. Fe allai ddigwydd, er enghraifft, lle y bydd cais cysylltiedig am ganiatâd cynllunio wedi ei alw i mewn; neu lle y mae cais am ganiatâd sylweddau peryglus yn codi materion o bwys eithriadol ynddo ei hun. Os ydynt o blaid rhoi caniatâd sylweddau peryglus (neu ganiatâd cynllunio) yn groes i gyngor yr Awdurdod Cymwys, gofynnir i awdurdodau sylweddau peryglus (ac awdurdodau cynllunio lleol) ei hysbysu ymlaen llaw a chaniatáu 21 niwrnod iddynt er mwyn ystyried a ddylid gofyn i'r Cynulliad alw'r cais i mewn.

47. Gellir apelio o dan adran 21 y Ddeddf i'r Cynulliad yn erbyn methiant yr awdurdod sylweddau peryglus i benderfynu cais o fewn y cyfnod a ragnodwyd; neu yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod sylweddau peryglus i:

    i) wrthod rhoi caniatâd sylweddau peryglus; neu
    ii) wrthod rhoi unrhyw ganiatâd, cydsyniad neu gymeradwyaeth sy'n ofynnol o dan amod a osodwyd ar roddi caniatâd sylweddau peryglus; neu
    iii) roi caniatâd sylweddau peryglus o dan amodau.

    Mae ffurflenni apelio ar gael oddi wrth yr Arolygiaeth Gynllunio, Ystafell 1-004, Parc Cathays, Caerdydd CFI0 3NQ.

48. Pan ddaw cais am ganiatâd sylweddau peryglus neu apêl gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan adrannau 20 neu 21, bydd hawl gan yr ymgeisydd/apelydd a'r awdurdodau sylweddau peryglus i'w gwrando gerbron person a benodir. Fel arfer,

bydd y gwrandawiad ar ffurf ymchwiliad lleol cyhoeddus. At hynny, fe all y Cynulliad beri cynnal ymchwiliad cyhoeddus hyd yn oed lle na fydd y prif bartïon yn arfer yr hawl hwnnw, os yw o'r farn mai hyn fyddai'r modd mwyaf priodol i benderfynu'r achos. Yn yr ymchwiliadau hyn, fe gymhwysir ysbryd Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1992, fel y bo'n briodol. Pan na ofynnir am ymchwiliad a phan nad yw'r Cynulliad yn bwriadu cynnal un, fe benderfynir yr apêl ar ôl cyfnewid sylwadau ysgrifenedig ac wedi ymweliad â'r safle. Bwriedir y bydd yr weithdrefn mewn achosion o'r fath fel arfer yn dilyn ysbryd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) 1987[8].

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL O GANLYNIAD I NEWIDIADAU A WNAED TRWY REOLIADAU CYNLLUNIO (RHEOLI PERYGLON DAMWEINIAU SYLWEDDOL) 1999

### *Caniatâd Sylweddau Peryglus Tybiedig*

49. Mae Adran 11 o Ddeddf 1990 yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi gweithredwyr i hawlio *caniatâd tybiedig* parthed sylweddau peryglus a fu'n bresennol ar, dros neu o dan safle yn ystod y cyfnod o 12 mis yn union cyn y dyddiad pryd y daeth Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol) 1999 i rym (20 Ebrill 1999). Cyfeirir at y cyfnod hwn o 12 mis fel y "cyfnod sefydlu" (adran 11(8) o Ddeddf 1990, fel y'i cymhwysir gan Reoliad 4 o Reoliadau 1999). Diben y darpariaethau yw osgoi amhariad diangen trwy alluogi gweithredwyr i barhau â gweithrediadau a fu'n gyfreithlon cyn hynny yn ymwneud â sylweddau peryglus, mewn modd tebyg i'r hyn a fu cyn hynny, heb ofyniad am roddi caniatâd penodol gan yr awdurdod sylweddau peryglus.

50. Rhaid cyflwyno hawliadau am ganiatâd tybiedig i'r awdurdod sylweddau peryglus priodol o fewn 6 mis oddi ar y dyddiad pryd y daeth Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol) 1999 i rym. Rhaid eu cyflwyno ar y ffurflen a ragnodir i'r diben hwn yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau (Ffurflen 8) a rhaid iddynt gynnwys yr wybodaeth arall sy'n ofynnol o dan Reoliad 14. Bydd yr wybodaeth hon yn dangos ym mha fodd ac ym mha le yr oedd pob sylwedd sy'n ddarostyngedig i'r hawliad yn bresennol yn ystod y cyfnod sefydlu.

51. Bydd caniatâd tybiedig yn ddarostyngedig i amodau safonol a restrir yn adran 11(7)(a) o Ddeddf 1990 fel y'i cymhwysir gan Reoliad 4 o Reoliadau 1999, ac yn Atodlen 3 i Reoliadau 1992. Mae'r rhai yn adran 11(7)(a) yn cyfyngu ar y maint cyfansymiol mwyaf o sylwedd(au) peryglus a gaiff fod yn bresennol o dan delerau'r caniatâd tybiedig. Mae'r rhai yn Atodlen 3 i Reoliadau 1992, yn rheoleiddio ym mhle, ac ym mha fodd, y gall sylwedd fod yn bresennol o dan delerau caniatâd tybiedig, yn unol â'r lle a'r modd yr oedd y sylwedd yn bresennol yn ystod y cyfnod sefydlu. Fe'u cynllunnir er mwyn osgoi'r posibilrwydd y caiff sylwedd ei ddefnyddio mewn modd sylweddol wahanol neu mewn rhan wahanol o'r safle - gyda'r posibilrwydd o gynyddu risgiau oddi ar y safle - heb i'r awdurdod sylweddau peryglus gael y cyfle i weithredu rheolaeth fanwl.

[8] OS 1987 Rhif 701

### *Amodau Safonol Sy'n Berthnasol i Ganiatâd Tybiedig: Maint Sefydledig*

52. O dan yr amod safonol cyntaf (adran 11(7)(a) fel y'i cymhwyswyd gan Reoliad 4 o Reoliadau 1999) ni all y maint cyfansymiol mwyaf o sylwedd a gaiff fod yn bresennol ar, dros neu o dan y tir fod ar unrhyw adeg yn fwy na'r maint sefydledig. Ystyr maint sefydledig yw'r maint mwyaf oedd yn bresennol ar, dros neu o dan y tir ar unrhyw adeg yn ystod y "cyfnod sefydlu" (gweler para 49). Mewn geiriau eraill, y maint mwyaf oedd yn bresennol yn ystod y 12 mis cyn 20 Ebrill 1999. Mae'r tir y cyfeirir ato yma yn cynnwys unrhyw dir a reolir gan yr un person, ac o fewn 500 metr o'r tir, unrhyw adeiladwaith a reolir gan yr un person y mae unrhyw ran ohono o fewn 500 metr o'r tir neu unrhyw dir arall a reolir gan yr un person sydd, gyda'r tir dan sylw, yn ffurfio sefydliad unigol (gweler para 17).

### *Amodau Safonol Sy'n Berthnasol i Ganiatâd Tybiedig: Ardal Lle y Gellir Cadw Sylwedd*

53. Yn achos pob sylwedd a gynhwysir yn yr hawliad am ganiatâd tybiedig, bydd yr ymgeisydd yn darparu, fel y bo'n briodol, "cynllun ardal storio cynwysyddion symudol" a "chynllun lleoliad cynwysyddion". Rhaid i'r cynllun cyntaf ddynodi unrhyw fan ar y safle lle y storiwyd mwy na 10 y cant o'r maint rheoledig o'r sylwedd mewn cynwysyddion sefydlog yn ystod y cyfnod sefydlu; a rhaid i'r ail gynllun ddynodi unrhyw fannau ar y safle (a elwir yn "fannau cynwysyddion") lle y bu'r sylwedd yn bresennol mewn cynhwysydd - fel y'i diffinnir yn Rheoliad 2 - yn ystod y cyfnod hwnnw (heb ystyru cynwysyddion lle na fu mwy na 10 y cant o faint rheoledig y sylwedd yn bresennol) (gweler Rheoliad 14 a Ffurflen 8 yn Atodlen 2).

54. Mae Rheoliad 14(4) yn pennu sut y dylid llunio terfynau man cynwysyddion. Gellir cael nifer o wahanol fannau cynwysyddion o fewn safle mewn perthynas â'r un sylwedd. O dan Reoliad 14(4)(b), ni chaiff terfynau unrhyw ddau fan a ddynodir i'r un sylwedd orgyffwrdd â'i gilydd (oherwydd, fel arall, gellid cael anghysondeb yn yr amodau sy'n rheoleiddio presenoldeb y sylwedd ar y man lle y ceir gorgyffwrdd). Fodd bynnag, fe fyddai gorgyffwrdd yn dderbyniol yn achos gwahanol fannau cynwysyddion sy'n ymwneud â gwahanol sylweddau, oherwydd ni fyddai'r rhain yn peri anghysondeb o'r fath. Parthed sylwedd peryglus rhif cofnod 32, (petrol modurol a gwirod petrolewm o fath arall) mae rheoliad 16(2) yn ei gwneud yn bosibl cymryd i ystyriaeth cynhwysydd a ddynodwyd mewn trwydded gwirod petrolewm i ddibenion diffinio man cynwysyddion, pa un a fu'r sylwedd yn bresennol yn y cynhwysydd hwnnw yn ystod y cyfnod sefydlu ai peidio.

55. O ran y mannau a ddynodwyd felly ar gyfer pob sylwedd, mae'r amodau lleoli safonol ym mharagraffau 6 a 7 yn Atodlen 3 yn rhagamodi na fydd sylwedd peryglus yn bresennol mewn cynhwysydd y tu allan i fan cynwysyddion (a ddynodwyd i'r sylwedd hwnnw); ac, yn yr un modd, na fydd sylwedd yn bresennol mewn cynhwysydd symudol y tu allan i fan a ddynodwyd i'r sylwedd hwnnw ar gynllun mannau storio cynwysyddion symudol. I ddiben yr amod ym mharagraff 6 yn Atodlen 3, ni ddylid cymryd i ystyriaeth bresenoldeb o lai na 10 y cant o faint rheoledig y sylwedd mewn cynhwysydd. Yn yr un modd, i ddiben yr amod ym mharagraff 7(1) yn Atodlen 3, ni ddylid cymryd i ystyriaeth y storio ar sylwedd mewn cynwysyddion symudol mewn man lle y mae maint y sylwedd a storir felly heb fod yn fwy na 10 y cant o'i faint rheoledig. Cyfeirir at hyn yn Rheoliad 16(1) a

(3). Mae hyn er mwyn osgoi rheolaeth afraid o gyfyngiadol ar feintiau cymharol fach.

***Amodau Safonol Sy'n Berthnasol i Ganiatâd Tybiedig: Dull er Cadw Sylweddau***

56. Bydd yr wybodaeth sy'n ofynnol yn Rhan 4 Tabl B y ffurflen hawlio caniatâd tybiedig (Ffurflen 8) yn sefydlu'r modd yr oedd sylwedd yn bresennol yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae'r amodau safonol ym mharagraffau 1 i 5 yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau, sy'n rheoleiddio ym mha fodd y gall sylwedd fod yn bresennol mewn cynhwysydd o fewn man cynwysyddion o dan delerau caniatâd tybiedig. Maent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r wybodaeth a roddir gan yr hawlydd yn Nhabl B. Mae'r amodau hyn yn sicrhau na ellir cadw neu ddefnyddio sylwedd ond mewn modd penodol o fewn man cynwysyddion os cafodd ei gadw neu ei ddefnyddio yn yr un modd yn yr *un man cynwysyddion* yn ystod y cyfnod sefydlu (fel y dynodir yn yr wybodaeth a roddir yn Nhabl B).

57. Yn achos pob sylwedd sy'n gynwysiedig yn yr hawliad, rhaid i'r hawlydd roi gwybodaeth ar wahân ynghylch y modd yr oedd y sylwedd yn bresennol *ym mhob* man cynwysyddion. Mae'r nodiadau esboniadol i Dabl B yn egluro sut i gwblhau'r gwahanol golofnau. Nid oes rhaid cwblhau'r Tabl yn achos sylweddau mewn cynwysyddion symudol am nad yw'r rhain yn ddarostyngedig i'r amodau safonol ym mharagraffau 1 i 6 yn Atodlen 3. Ymhellach, at ddibenion cwblhau Tabl B a'r amodau a grybwyllir uchod, ni ddylid cymryd i ystyriaeth presenoldeb maint o sylwedd mewn cynhwysydd nad yw'n fwy na 10 y cant o'r maint rheoledig.

58. Bydd yr amodau ym mharagraffau 1 i 6 yn Atodlen 3 yn gweithredu yn y modd a ganlyn. Bydd y sylwedd yn cael ei gadw neu ei ddefnyddio:

i) ar dymheredd sy'n is na'r tymheredd amgylchynol; neu,

ii) ar y tymheredd amgylchynol; neu,

iii) ar dymheredd sy'n uwch na'r tymheredd amgylchynol.

Penderfynir ar y gyfres o amodau sy'n berthnasol yn ôl pa un o'r uchod sy'n gymwys. Er enghraifft, os bwriedir storio sylwedd mewn cynhwysydd ar dymheredd sy'n is na'r tymheredd amgylchynol, bydd angen cyflawni tri gofyniad:

i) bod y sylwedd wedi bod yn bresennol ar dymheredd sy'n is na'r tymheredd amgylchynol mewn cynhwysydd yn yr un ardal cynwysyddion yn ystod y cyfnod sefydlu;

ii) nad yw'r cynhwysydd lle y mae i'w storio â chynhwysedd mwy na'r cynhwysydd sydd â'r cynhwysedd mwyaf yn yr un man cynwysyddion lle'r oedd y sylwedd yn bresennol ar dymheredd oedd yn is na'r tymheredd amgylchynol yn ystod y cyfnod sefydlu; a,

iii) na fydd y gwasgedd wrth ei storio yn fwy na'r:-

a) gwasgedd atmosfferig, os nad oedd y sylwedd yn bresennol ar wasgedd uwch na'r gwasgedd atmosfferig ar dymheredd is na'r tymheredd amgylchynol mewn cynhwysydd yn yr un man cynwysyddion yn ystod y cyfnod sefydlu; neu,

b) mewn unrhyw achos arall, y gwasgedd pwrpasol uchaf i'r cynhwysydd mewn unrhyw gynhwysydd lle'r oedd y sylwedd yn bresennol yn y man cynwysyddion hwnnw ar wasgedd uwch na'r gwasgedd atmosfferig ac yn is na'r tymheredd amgylchynol yn ystod y cyfnod sefydlu.

59. Os bwriedir storio sylwedd ar y tymheredd amgylchynol, bydd rhaid cyflawni'r amodau a geir yn un ai paragraff 2 neu 3 yn Atodlen 3, gan ddibynnu ar bresenoldeb y sylwedd mewn cynwysyddion claddedig neu rai mewn twmpath. Fe allai'r gwahaniad ychwanegol hwn fod yn arbennig o arwyddocaol yn nhermau perygl lle y caiff sylwedd ei storio ar dymheredd amgylchynol. Os bwriedir storio sylwedd ar dymheredd sy'n *uwch* na'r tymheredd amgylchynol, bydd angen cyflawni'r amodau ym mharagraffau 4 neu 5 yn Atodlen 3, gan ddibynnu ar bresenoldeb y sylwedd ar, neu o dan, neu yn uwch na'i ferwbwynt ar 1 bar absoliwt. Er mwyn penderfynu a yw sylwedd i'w drin fel un ar dymheredd amgylchynol, fe dynnir sylw at Reoliad 16(4). Mae hyn yn egluro nad yw sylwedd i'w ystyried yn un sy'n bresennol ar dymheredd heblaw'r tymheredd amgylchynol am ei fod, er enghraifft, wedi ei wresogi i gadw hylifedd yn ystod amrywiadau tymhorol mewn tymheredd.

60. Yn achos cynwysyddion symudol, ni fernir fod angen unrhyw amodau i reoleiddio tymheredd neu wasgedd. Fodd bynnag, ni chaiff maint y sylwedd a storir mewn cynwysyddion o'r fath o fewn man storio cynwysyddion symudol fod yn uwch na maint mwyaf y sylwedd hwnnw a storiwyd cyn hynny mewn cynwysyddion symudol o fewn y man hwnnw yn ystod y cyfnod sefydlu. Ymhellach, nid yw cynhwysedd unrhyw gynhwysydd symudol unigol y mae'r sylwedd yn bresennol ynddo, i fod yn fwy na 10 y cant o'r maint rheoledig, os nad oedd wedi ei storio yn y man hwnnw mewn man cynwysyddion symudol, oni bai ei fod wedi'i storio yn y cyfryw gynhwysydd yn ystod y cyfnod sefydlu. Beth bynnag, ni ellir ei storio mewn cynhwysydd symudol y mae ei gynhwysedd yn fwy na'r cynhwysydd mwyaf y cafodd ei storio ynddo yn ystod y cyfnod sefydlu. O dan yr amodau oedd yn ymwneud â chaniatâd tybiedig yn 1992 gellid storio mewn man storio cynwysyddion symudol hyd at ddwywaith uchfaswm y sylwedd a storiwyd mewn cynwysyddion symudol yn ystod y cyfnod sefydlu. Bellach, nid yw'r amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd sy'n cael ei hawlio ar ôl i Reoliadau 1999 gael eu cyflwyno ond yn caniatáu hyd at yr uchafswm a gedwir mewn cynwysyddion symudol. Nodwch nad yw hyn yn effeithio ar yr amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd tybiedig a hawliwyd yn 1992.

***Datblygiad Peryglus a Awdurdodwyd Cyn Gweithredu Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol) 1999***

61. Fe allai sefyllfa godi lle y rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddatblygiad yr oedd storio neu ddefnyddio sylweddau peryglus ymhlyg ynddo ac nad oedd yn ofynnol sicrhau caniatâd sylweddau peryglus ar ei gyfer ar adeg ei gymeradwyo. Mae'n bosibl y byddai contractau wedi eu gosod neu'r datblygiad wedi dechrau, ar y sail honno, ond nid yw caniatâd sylweddau peryglus tybiedig ar gael am na fu'r sylweddau dan

sylw yn bresennol ar y safle yn ystod y cyfnod sefydlu. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai disgwyl i'r awdurdodau sylweddau peryglus roi ystyriaeth gydymdeimladol i unrhyw gais am ganiatâd sylweddau peryglus a wneir wedyn sydd yn gyson â thelerau'r cais a'r caniatâd cynllunio. Ni ddylid gwrthod caniatâd, fel arfer, oni bai fod rhesymau cryf dros benderfyniad o'r fath, sydd yn ymwneud â newid sylweddol yn yr amgylchiadau perthnasol.

**CANIATÂD TYBIEDIG**

***Caniatâd Sylweddau Peryglus a Roddir yn Rhinwedd Awdurdodiad Gan Adran o'r Llywodraeth (adran 12)***

62. Pan fydd yn ofynnol cael awdurdodiad gan adran o'r llywodraeth i ddatblygiad gan ymgymerwr statudol neu awdurdod lleol, a'r datblygiad yn golygu presenoldeb sylwedd peryglus mewn amgylchiadau lle y mae caniatâd sylweddau peryglus yn ofynnol, fe all yr adran dan sylw, wrth roi'r awdurdodiad hwnnw, gyfarwyddo fod tybiaeth i ganiatâd sylweddau peryglus gael ei roi, yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y gellir eu dynodi yn y cyfarwyddyd. Mae'r term "adran o'r llywodraeth" yn cynnwys y Cynulliad Cenedlaethol ac unrhyw Weinidog o'r Goron. Mae'r adran hon yn debyg o ran ei heffaith i adran 90 y brif Ddeddf sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio tybiedig. Y bwriad yw y dylai pob cymeradwyaeth berthnasol i brosiectau o'r fath gael ei hystyried ar yr un pryd â'r cais am awdurdodiad. Rhaid i'r adran dan sylw ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch cyn cyfarwyddo fod tybiaeth fod caniatâd sylweddau peryglus wedi ei roi a bydd disgwyl iddo sicrhau drwy weinyddu fod ymgynghoriadau priodol eraill yn digwydd, gan gynnwys y rhai â'r awdurdod lleol perthnasol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

**AMRYWIO A DIDDYMU CANIATÂD**

***Ceisiadau I Ddileu Amodau (adran 13)***

63. Mae adran 13 o Ddeddf 1990 yn ymwneud â cheisiadau i ddileu amod (neu amodau) sydd yn ymwneud â chaniatâd sylweddau peryglus a roddwyd yn flaenorol. Gellid gwneud ceisiadau o'r fath un ai cyn neu ar ôl gweithredu'r caniatâd gwreiddiol. Er enghraifft, efallai y bydd caniatâd wedi ei roi o dan amod sy'n cyfyngu storio sylwedd i leoliad penodol, a hwyrach y bydd dymuniad yn ddiweddarach i'w ail-leoli; neu efallai y bydd amod yn mynnu y caiff sylwedd ei symud erbyn dyddiad penodol a hwyrach y bydd gan yr ymgeisydd reswm da wedi hynny dros barhau i ddefnyddio'r sylwedd hwnnw ar ôl y dyddiad hwnnw. Wrth ystyried cais o'r fath, ni chaiff yr awdurdod sylweddau peryglus ond ystyried yr amodau - ni chaiff ddiddymu'r penderfyniad gwreiddiol. Felly, gall gweithredwr ymgeisio am newid neu ddileu amod heb godi amheuaeth ynghylch egwyddor y caniatâd. Os penderfyna'r awdurdod sylweddau peryglus y dylai'r amod(au) ar y caniatâd gael eu newid neu eu dileu'n gyfan gwbl, rhaid iddo roi caniatâd newydd yn unol â hynny. Pan benderfyna na ddylid newid yr amodau sydd yn ymwneud â'r caniatâd, rhaid gwrthod y cais, ond bydd y caniatâd gwreiddiol yn sefyll.

64. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i'r amodau safonol sy'n ymwneud â chaniatâd tybiedig yn ogystal ag amodau sy'n ymwneud â chaniatâd a roddwyd yn benodol gan yr awdurdod sylweddau peryglus. Felly, os yw gweithredwr safle yn

dymuno sicrhau dileu amod mewn caniatâd tybiedig, er enghraifft, er mwyn newid neu ddileu cyfyngiad ar y modd neu y lle y gall sylwedd fod yn bresennol, dylid cyflwyno'r cais yn briodol ar Ffurflen 2 gan ymdrin ag ef o dan adran 13.

65. Yn rhinwedd adran 13(5), pan fo caniatâd am fwy nag un sylwedd, ni all yr awdurdod sylweddau peryglus roi sylw i amod sy'n ymwneud â sylwedd nad yw'r cais yn ymwneud ag ef ond i'r graddau fod iddo oblygiadau i sylwedd y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Un enghraifft o hynny yw pan fydd amod yn ymwneud â lleoliad sylwedd arall ar safle a bod dymuniad i sicrhau y cedwir y ddau sylwedd ar wahân i'w gilydd. Ceir sefyllfa debyg o dan isadran (6) lle y mae mwy nag un caniatâd ar gael parthed yr un tir.

***Ceisiadau I Barhau â Chaniatâd ar ôl Newid y Rheolaeth ar Ddarn o dir (adran 17)***

66. Bwriad adran 17 o Ddeddf 1990 yw sicrhau fod trefniad synhwyrol, pan fydd rheolaeth ar dir y mae caniatâd yn gysylltiedig ag ef wedi ei rhannu'n ddwy neu ragor o rannau, parthed yr hawl i gadw sylweddau peryglus ar un neu ragor o'r rhannau hynny. Fel arfer, bydd caniatâd sylweddau peryglus yn cyd-fynd â'r tir (fel y byddai caniatâd cynllunio) ond, pan fo newid rheolaeth ar ran o'r tir y mae'n gysylltiedig ag ef, fe gaiff y caniatâd ei ddiddymu oni wnaed cais am barhau â'r caniatâd cyn hynny o dan Adran 17. Pe na wneid darpariaeth o'r fath fe ellid cael canlyniad anaddas: er enghraifft, pe bai caniatâd i gadw sylwedd ar safle sy'n cynnwys cae chwarae i'r staff. Mae'r cae chwarae ar gyrion pellaf y safle, yn ddigon pell o'r ffatri ac nid oes unrhyw sylweddau peryglus yn cael eu cadw yno. Pe byddai gweithredwr y ffatri yn gwerthu'r cae chwarae yn unig, fe fyddai'n amhriodol i'r caniatâd gael ei rannu'n gyfannol rhwng y perchenogion. Mewn llawer o achosion, bydd y caniatâd yn gosod amodau sy'n rheoli'r lleoliad penodol o fewn safle lle y mae'r sylweddau i'w cadw neu eu defnyddio, ond ni fydd hynny'n wir bob amser.

67. Mae adran 18(1) yn galluogi'r awdurdod sylweddau peryglus i newid neu ddiddymu caniatâd sydd yn ddarostyngedig i gais o dan adran 17(1). Pan wna hynny, mae hawl o dan adran 19 i'r person sy'n rheoli'r cwbl o'r tir cyn y newid dderbyn iawndal am unrhyw golled neu ddifrod a ddioddefir y gellir ei briodoli i'r newid neu'r diddymiad. Mae'n debygol y bydd angen o leiaf i'r awdurdod sylweddau peryglus newid y disgrifiad o'r tir y mae'r caniatâd yn ymwneud ag ef; ac efallai y bydd angen newid amodau, ond anaml y bydd yn briodol defnyddio'r pwerau hyn i orfodi amodau ar ganiatâd sydd yn llawer mwy beichus nag i'w ddiddymu. Mewn achos nodweddiadol, lle mae angen addasu'r caniatâd i gyfeirio'n unig at un rhan o eiddo sydd wedi'i rannu, mae'n dra annhebyg y bydd addasiad rhesymol yn arwain at hawlio iawndal.

68. Fe gyflwynir ceisiadau sydd i'w penderfynu o dan adrannau 13 neu 17 ar Ffurflen 2 yn Atodlen 2. Er y bydd caniatâd neu ganiatâd tybiedig wedi ei roi eisoes yn yr achosion hyn fe allent arwain at faterion sydd yr un mor bwysig ag yn achos ceisiadau newydd am ganiatâd. Felly cymhwysir yr un gweithdrefnau parthed cyhoeddusrwydd ac ymgynghori ag yn achos caniatâd newydd (Rheoliad 5(10)). Gellir hefyd alw i mewn y ceisiadau hyn o dan adran 20 ac apelio yn erbyn penderfyniadau gwrthwynebus o dan adran 21. Nid oes hawl apelio yn erbyn methiant gan awdurdod i benderfynu ar gais o dan adran 17 o fewn y cyfnod a

ragnodir, nac unrhyw gyfnod estynedig a gytunir, oherwydd bydd unrhyw fethiant o'r fath yn golygu fod tybiaeth fod y cais wedi ei dderbyn (adran 18(7) o Ddeddf 1990).

### *Diddymu neu Addasu Caniatâd Sylweddau Peryglus*

69. Mae adran 14 o Ddeddf 1990 yn rhoi hawl i awdurdodau sylweddau peryglus wneud gorchymyn i ddiddymu neu addasu caniatâd sylweddau peryglus. Mae'n ofynnol i orchymyn o'r fath gael ei gadarnhau gan y Cynulliad Cenedlaethol cyn iddo ddod i rym. Mae isadran (1) yn rhoi hawl cyffredinol i awdurdodau ddiddymu neu addasu caniatâd lle y barnant fod hynny'n fuddiol; mae isadran (2) yn nodi amgylchiadau arbennig pryd y gellir diddymu caniatâd. Un gwahaniaeth pwysig yn achos gorchmynion a wneir o dan isadran (1) (ond nid yn achos gorchmynion a wneir o dan isadran (2)) yw fod hawl gan rywun sy'n dioddef niwed o ganlyniad dderbyn iawndal o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 16.

70. Fel yn achos caniatâd cynllunio, mae caniatâd sylweddau peryglus yn rhoi hawl sy'n cydredeg â'r tir. Fel egwyddor gyffredinol, fe ystyrir y dylid talu iawndal fel arfer pan fydd colled neu niwed yn dilyn diddymiad neu addasiad. Fodd bynnag, fe allai fod yn annymunol i ganiatâd sylweddau peryglus barhau mewn grym pan roddir y gorau i'w ddefnyddio, gan y gallai gyfyngu'n ddianghenraid ar ddefnyddiau posibl y tir cyfagos. Ymhellach na hynny, mae'n bosibl na fydd caniatâd sylweddau peryglus a roddir ar gyfer presenoldeb sylwedd mewn cysylltiad â defnydd tir penodol yn addas o reidrwydd mewn perthynas â rhyw ddefnydd arall. Fe allai fod yn annymunol felly i ganiatâd sylweddau peryglus aros mewn grym pan fydd newid o bwys yn nefnydd y tir. Felly, effaith gyffredinol adran 14(2) yw pan na fu dibyniaeth ar ganiatâd am 5 mlynedd, neu pan fu newid o bwys yn nefnydd y tir ers rhoi'r caniatâd, y gellir diddymu'r caniatâd heb atebolrwydd i dalu iawndal. Bydd y gofyniad yn isadran (4) i orchymyn nodi'r sail dros ei wneud yn fodd i hawlydd dichonol wybod a yw'r diddymiad neu'r addasiad yn un lle y gallai iawndal fod yn daladwy.

71. Mae adran 15 yn nodi'r gweithdrefnau er cadarnhau diddymu neu addasu gorchmynion. Mae'r rhain yn efelychu'r rhai sy'n ymwneud â chadarnhau gorchmynion sy'n diddymu neu'n addasu caniatâd cynllunio fel a geir yn adran 98 o'r brif Ddeddf. Mae isadran (2) yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i gadarnhau gorchymyn gydag addasiadau neu hebddynt. Mae isadran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sylweddau peryglus gyflwyno rhybudd o orchymyn i unrhyw un sydd yn berchennog ar y tir, neu'n ei reoli fel arall, neu i unrhyw un arall a effeithir yn ei farn ef. Rhaid i'r rhai y cyflwynir rhybudd iddynt gael o leiaf 28 niwrnod pryd y gallant fynnu i'r Cynulliad Cenedlaethol roi iddynt hwy a'r awdurdod sylweddau peryglus y cyfle i gael eu gwrando gerbron person penodedig. Yn ymarferol, bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau y bydd gorchymyn a wrthwynebir yn cael ei ystyried fel arfer mewn ymchwiliad cyhoeddus.

### **Ffïoedd am Geisiadau am Ganiatâd Sylweddau Peryglus**

72. Rhaid rhoi taliad ffi priodol gyda chais am ganiatâd sylweddau peryglus. Nodir y rhain yn rheoliad 24. Dylai'r ffïoedd alluogi awdurdodau lleol i adfer y costau

gweinyddu arferol a geir wrth drafod ceisiadau am ganiatâd. Adolygir lefel y ffïoedd yn rheolaidd gan gadw hynny mewn cof.

73. Yn achos ceisiadau am ganiatâd am hyd at ond nid yn fwy na dwywaith maint rheoledig y sylwedd, y ffi yw £250. Yn achos cynigion am ganiatâd sy'n fwy na dwywaith y maint rheoledig, y ffi yw £400. Seilir hyn ar y rhagdybiaeth gyffredinol mai po fwyaf y bydd cynigion yn mynd dros y maint rheoledig, mwyaf fydd y risg oddi ar y safle a allai godi, a'i bod yn debygol felly y bydd angen ystyriaeth fwy gofalus. Yn achos ceisiadau i ddileu amodau a pharhau â chaniatâd lle y cafwyd caniatâd sylweddau peryglus eisoes, fe geir cyfradd unffurf o £200. Adolygir y raddfa ffïoedd o bryd i'w gilydd, yn yr un modd ag yr adolygir ffïoedd cynllunio eraill.

74. Fe all awdurdodau sylweddau peryglus hefyd dderbyn hawliadau am ganiatâd tybiedig. Gan fod caniatâd tybiedig yn hawl nad oes angen penderfyniad yn ei gylch gan yr awdurdod lleol, nid yw'n briodol codi ffi ar hawlwyr.

## Cofrestrau o Geisiadau a Chaniatâd a Roddwyd

75. Mae adran 28 o Ddeddf 1990 (fel y'i diwygiwyd trwy Atodlen 13 ac Atodlen 16, Rhan VII i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod sylweddau peryglus gadw cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth am geisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus, a cheisiadau am barhau â chaniatâd o dan adran 17; y penderfyniadau ar y cyfryw geisiadau; caniatâd y tybir ei fod wedi ei roddi o dan adrannau 11 neu 12; diddymiadau neu addasiadau ar ganiatâd; a chyfarwyddiadau a roddwyd mewn argyfwng o dan adran 27. Mae Rheoliad 23 yn Rheoliadau 1992 yn nodi'r gofynion manwl ynghylch y modd y dylid cadw'r gofrestr.

76. Cyhoeddir gwybodaeth am nifer y ceisiadau a dderbynnir ac a benderfynir, a natur y penderfyniadau a roddir. Gofynnir i'r awdurdodau sylweddau peryglus ddarparu'r wybodaeth hon i Adran Gynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol trwy arolwg blynyddol. Mae trefniadau er casglu'r wybodaeth hon yn cael eu hadolygu.

## Gofynion Iechyd a Diogelwch

77. Yn rhinwedd adran 29 o Ddeddf 1990, ni all unrhyw ganiatâd sylweddau peryglus neu rybudd tor-rheolaeth fynnu neu ganiatáu cyflawni dim sydd yn groes i unrhyw un o'r "darpariaethau statudol perthnasol" neu unrhyw rybudd gwahardd neu rybudd gwella a gyflwynir o dan neu yn rhinwedd unrhyw un o'r darpariaethau hynny. I'r graddau fod caniatâd neu orchymyn o'r fath yn honni mynnu neu ganiatáu cyflawni dim o'r fath, fe fydd yn ddi-rym; a bydd angen ei ddiddymu neu ei addasu i'w wneud yn gwbl weithredol.

78. Rhoddir yr un ystyr i "ddarpariaethau statudol perthnasol", "rhybudd gwella" a "rhybudd gwahardd" ag yn Rhan 1 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974. Diffinnir y term "darpariaethau statudol perthnasol" yn adran 53 o'r Ddeddf honno fel darpariaethau Rhan 1 o'r Ddeddf honno ac unrhyw reoliadau iechyd a diogelwch; a'r darpariaethau statudol presennol a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1974 (sy'n cynnwys amryfal ddeddfau fel Deddf Petrolewm (Cydgyfnerthiad) 1928) a

rheoliadau, gorchmynion ac offerynnau eraill o natur ddeddfwriaethol a wnaed neu sydd yn effeithiol o dan unrhyw un o'r deddfau hynny. Mae Rheoliadau NIHSS a Rheoliadau SEVESO II yn "ddarpariaethau statudol perthnasol".

79. Wrth ddatblygu a gweithredu unrhyw sefydliad neu biblinell, mae dyletswydd gyffredinol ar weithredwyr o dan Ddeddf 1974 i sicrhau iechyd a diogelwch eu gweithwyr cyflogedig ac eraill, cyhyd ag y gellir yn rhesymol. Yn ôl natur eu gweithgareddau fe allent fod yn ddarostyngedig i amrediad o ofynion penodol a orfodir gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch arall, fel y crybwyllir uchod. Ymhellach na hynny, mae Deddf 1974 yn rhoi hawl i arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gyflwyno rhybuddion gwella a rhybuddion gwahardd. Yn achos rhybuddion gwella, mae'n ofynnol gweithredu o fewn cyfnod penodol er mwyn cywiro tor-rheolaeth ar ofynion iechyd a diogelwch. Lle y bo risg o anaf personol difrifol, gall rhybudd gwahardd atal gweithgaredd ar unwaith neu wahardd gweithgaredd newydd rhag dechrau.

80. Os bydd awdurdod sylweddau peryglus, wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf 1990, yn caniatáu neu'n mynnu cyflawni rhywbeth sydd (neu a fydd) yn groes i unrhyw un o'r "darpariaethau statudol perthnasol" neu unrhyw rybudd gwahardd neu wella a gyflwynwyd o dan unrhyw un o'r darpariaethau hynny, bwriedir i adran 29 sicrhau mai'r darpariaethau diogelwch hynny fydd drechaf, gan fod rhaid i ddiogelwch fod yn ystyriaeth bennaf. Pan fydd gan awdurdod sylweddau peryglus reswm i gredu (efallai o ganlyniad i sylwadau gan weithredwr y safle) fod caniatâd neu rybudd tor-rheolaeth, neu ran ohono, wedi ei ddirymu, rhaid iddo ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch cyn gynted ag y gellir yn rhesymol. Os bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynghori fod y caniatâd neu'r rhybudd wedi ei ddirymu'n llwyr, rhaid i'r awdurdod sylweddau peryglus ei ddiddymu; os mai'r cyngor yw fod rhan o'r caniatâd neu'r rhybudd wedi ei dirymu, rhaid i'r awdurdod sylweddau peryglus ei addasu er mwyn ei wneud yn gwbl weithredol. Gan fod diddymiadau neu addasiadau o dan yr adran hon i'w gwneud am resymau diogelwch sydd o'r pwys mwyaf nid ydynt yn dod ag unrhyw hawl i dderbyn iawndal.

## RHYDDHAU O OFYNION CANIATÂD SYLWEDDAU PERYGLUS

81. Mae Rheoliad 4 yn Rheoliadau 1992 yn nodi'r amgylchiadau lle nad yw caniatâd sylweddau peryglus yn ofynnol, fel eithriadau i'r gofynion arferol.

### *Presenoldeb dros dro yn Ystod Cludo*

82. Mae Adran 4(3) o Ddeddf 1990 yn rhagamodi nad yw presenoldeb dros dro unrhyw sylwedd peryglus tra cludir ef o un lle i un arall i'w gymryd i ystyriaeth (i ddibenion caniatáu) oni bai

i) ei fod wedi ei ddadlwytho; neu,

ii) ei fod yn bresennol ar, dros neu o dan dir y mae caniatâd sylweddau peryglus ar ei gyfer i unrhyw sylwedd, neu y mae gofyniad am ganiatâd o'r fath ar ei gyfer i unrhyw sylwedd (heb gymryd i ystyriaeth y sylwedd a gludir).

83. Effaith hynny yw na ddylai presenoldeb dros dro sylweddau peryglus ar safle fod yn ddigon ynddo'i hun i wneud caniatâd sylweddau peryglus yn ofynnol, os nad oes unrhyw sylweddau eraill, heblaw am y sylweddau a gedwir dros dro yn unig, yn bresennol ar y safle mewn meintiau sy'n ei gwneud yn ofynnol, neu o ganlyniad i'r rheol adio, gyda'i gilydd yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau caniatâd sylweddau peryglus. Fodd bynnag, pan fo caniatâd yn ofynnol i bresenoldeb unrhyw sylwedd peryglus ar safle (heblaw sylweddau a gludir) yna bydd raid hefyd gymryd i ystyriaeth y sylweddau hynny sydd yn bresennol dros dro o fewn y safle wrth gyfrifo maint y sylweddau sy'n bresennol ar y safle.

84. Nid yw'r term "presenoldeb dros dro" wedi ei ddiffinio yn y Ddeddf. Bydd y mater o ba un a yw presenoldeb cerbyd yn un dros dro neu fel arall yn fater o ffaith a graddau, yn ôl yr amgylchiadau penodol. Mae'n bosibl, er enghraifft, y bydd yr awdurdod sylweddau peryglus yn penderfynu fod maint rheoledig o sylwedd wedi ei gadw ar gerbyd am gyfnod digon hir mewn un lle penodol iddo fod yn gyfystyr â defnydd storio sydd y tu allan i bwrpas y rhyddhad hwn. Mae'n bosibl y bydd angen dyfarniad hefyd wrth ystyried a yw sylwedd wedi ei "ddadlwytho". Ni all neb ond y Llysoedd roi dehongliad awdurdodol o'r gyfraith ar y pwynt hwn.

85. Mae'r rhyddhad yn rheoliad 4(1) yn ategu hwnnw yn adran 4(3) o Ddeddf 1990, trwy ymdrin â'r sefyllfa lle y mae sylwedd peryglus wedi ei ddadlwytho wrth gael ei gludo o un lle i'r llall. Bwriedir i hyn gynnwys y sefyllfa lle y mae sylwedd wedi ei gymryd oddi ar un cerbyd neu long yn unswydd er mwyn ei drosglwyddo i un arall. Yn yr un modd â'r rhyddhad o adran 4(3), mater i'w ddyfarnu yw a ydyw'r presenoldeb yn un dros dro. Ymhellach na hynny, fe ddylai fod bwriad eglur i drosglwyddo'r sylwedd i ddull cludiant arall (y gellir ei ddangos, er enghraifft, â chontract cludiant) o'i gyferbynnu â'r sefyllfa lle y mae sylwedd wedi ei storio i bob pwrpas.

***Piblinellau***

86. Nid yw'r system caniatâd sylweddau peryglus yn berthnasol i'r rheolaeth ar bresenoldeb sylweddau mewn piblinellau lleol neu draws-gwlad. Yn hytrach, parheir i ddibynnu ar y cyfyngiadau sydd eisoes yn bod mewn perthynas â phiblinellau o'r fath, fel y'u nodir yn Neddf Piblinellau 1962[9] a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996[10]. Fodd bynnag, fe ddylid cyfrif sylweddau a gynhwysir yn y rhan honno o'r biblinell sydd ar, dros neu o dan y safle y mae'n rhedeg ato neu oddi wrtho gyda'r sylweddau eraill ar y safle i ddibenion rheoli, oherwydd fe ddylid eu hystyried yn rhan o'r rhestr gyffredinol o sylweddau ar y safle hwnnw. Bydd ystyriaeth debyg yn berthnasol pan fydd piblinell yn gyfan gwbl o fewn safle. Fodd bynnag, yn achos piblinellau cyflenwi ymgymeriad nwy cyhoeddus, bernir mai anymarferol fyddai cymryd i ystyriaeth y nwy mewn pibell wasanaeth a gysylltir ag adeilad defnyddiwr. Ceir rhyddhadau priodol yn rheoliad 4(2) ar gyfer sylweddau mewn pibell wasanaeth neu mewn piblinell y tu allan i safle lle y mae iddi allfa neu fewnfa.

---

[9] 1962 Eliz.II 58
[10] SI 1996 Rhif 825

### *Argyfyngau ar y Môr*

87. Fe ellid cael sefyllfa lle y caniateir i long neu lestr fordwyol arall sy'n cynnwys sylwedd peryglus ddod i borthladd mewn cyflwr peryglus neu lle y bydd yr harbwrfeistr, er mwyn iechyd a diogelwch, yn diystyru'r gofynion arferol am rybudd ymlaen llaw. Efallai y bydd angen symud neu storio'r sylwedd fel mater o frys. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, mae Rheoliad 4(3) yn rhyddhau rhag gofynion caniatâd sylweddau peryglus y storio ar sylwedd a symudwyd o lestr o'r fath, am gyfnod o hyd at 14 diwrnod oddi ar yr adeg y'i dadlwythir. Bydd hyn yn caniatáu amser i wneud trefniadau storio addas eraill, os bydd angen.

### *Safleoedd Tirlenwi â Gwastraff*

88. Mae Rheoliad 4(4) yn rhoi rhyddhad i sylweddau peryglus sy'n bresennol mewn safleoedd tirlenwi â gwastraff o'r gweithdrefnau caniatáu. Mae'n bosibl, wrth gwrs, y bydd presenoldeb sylweddau o'r fath yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a weithredir trwy'r drwydded rheoli gwastraff a roddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Nid yw'r rhyddhad hwn yn berthnasol i wastraffau a waredir trwy eu llosgi.

### *Peryglon a Greir Gan Belydriad Ïoneiddio*

89. Nid yw'r weithdrefn caniatáu yn berthnasol i bresenoldeb sylwedd peryglus sydd **hefyd** yn creu perygl trwy belydriad ïoneiddio os yw'n bresennol ar, dros neu o dan dir y rhoddwyd trwydded safle niwclear ar ei gyfer neu y mae trwydded safle niwclear yn ofynnol iddo o dan Ddeddf Sefydliadau Niwclear 1965[11]. Fodd bynnag, bydd sylweddau peryglus sydd yn bresennol ar safleoedd a drwyddedwyd o dan Ddeddf Sefydliadau Niwclear 1965 nad ydynt yn creu peryglon trwy belydriad ïoneiddio yn ddarostyngedig i ganiatâd os ydynt yn fwy na'r meintiau rheoledig.

[11] 1965 pennod 57

### *Rhyddhad Parthed Meintiau Bychain o Sylweddau Peryglus ("Y Rheol 2%")*

90. Mae Rheoliad 4(6) yn rhoi rhyddhad lle y gellir diystyru meintiau bychain o sylwedd peryglus wrth gyfrifo maint y sylweddau peryglus sy'n bresennol ar safle. Gellir diystyru meintiau nad ydynt yn fwy na 2% o faint rheoledig perthnasol y sylwedd os yw eu lleoliad ar y safle yn golygu na allant weithredu fel cychwynnydd i ddamwain fawr mewn man arall ar y safle. Cyfrifoldeb i weithredwr y safle, yn y lle cyntaf, yw penderfynu a yw meintiau bychain o'r fath o sylweddau peryglus mewn lleoliad fel na allant weithredu fel cychwynnydd i ddamwain fawr mewn man arall ar y safle. Wrth wneud hynny, bydd yn dymuno cymryd i ystyriaeth ei gyfrifoldebau o dan reolaeth Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiadau risg o'r perygl sy'n deillio o bresenoldeb y sylweddau hyn ar y safle ac i'r rhain gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Bydd ymweliadau â'r safle gan arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn fodd i geisio sicrhau nad oes camddefnydd ar y rhyddhad hwn.

91. Nid yw'r rhyddhad hwn yn berthnasol i Clorin, LBG dan Wasgedd, Hydrogen Selenid neu Seleniwm Hecsafflworid (sylweddau a rifir 6, 14, 35 a 39 yn Rhan A o Atodlen 1). Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'r farn fod storio clorin ac LPG dan wasgedd, hyd yn oed mewn meintiau cyn lleied â 2% o'u meintiau rheoledig, yn golygu potensial i greu risg sylweddol oddi ar y safle. Yn achos Hydrogen Selenid a Seleniwm Hecsafflworid, y maint rheoledig y mae angen caniatâd sylweddau peryglus ar ei gyfer yw 1 dunnell. Dyma'r maint, wrth gymhwyso'r rheol 2%, a fyddai'n caniatáu diystyru'r sylweddau hyn. Felly, er mwyn cynnal y safonau iechyd a diogelwch presennol, penderfynwyd na ddylid cymhwyso'r rhyddhad hwn i'r sylweddau hyn.

### *Ffrwydron*

92. Ni chynhwysir ffrwydron sydd yn bresennol mewn ffatrïoedd ac arfdai a reolir trwy drwyddedau a roddir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unol â gweithdrefnau Cydsynio Deddf Ffrwydron 1875[12] yn y rhestr o sylweddau peryglus yn Atodlen 1. Yn yr un modd ni chynhwysir yn y rhestr ffrwydron sydd yn bresennol mewn porthladdoedd sy'n ddarostyngedig i ac wedi eu rheoli trwy drwyddedau a roddir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Sylweddau Peryglus yng Nghyffiniau Porthladdoedd 1987[13] (Gweler paragraffau 19 -21 yn Atodiad A).

93. Y mae ffrwydron sy'n bresennol mewn storfeydd a drwyddedir gan Gynghorau Sir o dan ddarpariaethau Deddf Ffrwydron 1875 wedi <u>eu cynnwys</u> yn y rhestr o sylweddau peryglus yn Atodlen 1. Mae maint y ffrwydron a drwyddedir gan Gynghorau Sir yn llai o lawer na'r maint rheoledig ar gyfer y naill a'r llall o'r categorïau ffrwydron generig y gallai'r sylweddau ddod odanynt, felly ni ddylai caniatâd sylweddau peryglus fod yn ofynnol am bresenoldeb y ffrwydron hyn yn unig. Mae'n bosibl, er hynny, o'u cyfrif gyda sylweddau peryglus eraill sy'n

[12] 1875 pennod 17
[13] OS 1987 Rhif 37

bresennol ar y safle, fod angen iddynt gyda'i gilydd fod yn ddarostyngedig i ganiatâd.

### *Argyfyngau*

94. Mae Adran 27 o Ddeddf 1990 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i fynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau ar sylweddau peryglus mewn argyfyngau. Lle y bernir ei bod yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau neu nwyddau hanfodol i sylwedd peryglus fod yn bresennol ar, dros neu o dan dir - mewn amgylchiadau lle y byddai caniatâd sylweddau peryglus yn ofynnol fel arfer - gall y Cynulliad Cenedlaethol roi cyfarwyddiad nad yw presenoldeb y sylwedd hwnnw yn golygu toriad ar gyfyngiad sylweddau peryglus. Bydd cyfarwyddiad o'r fath, a allai fod yn ddarostyngedig i amodau neu eithriadau, yn ddilys am dri mis ar y mwyaf ond fe ellir ei dynnu'n ôl neu ei adnewyddu ar unrhyw adeg. Ymgynghorir fel arfer â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch cyn defnyddio'r pwerau hyn.

### *Tir y Goron*

95. Yn yr un modd â rheolaeth cynllunio, nid yw rheolaeth ar sylweddau peryglus yn cynnwys y Goron. Fodd bynnag, lle y bydd un o gyrff y Goron yn dymuno cadw neu ddefnyddio sylwedd peryglus mewn amgylchiadau lle y byddai caniatâd sylweddau peryglus yn ofynnol fel arall, bwriedir y dylid dilyn gweithdrefnau tebyg i'r rhai sy'n berthynol i gais am ganiatâd sylweddau peryglus, ond ar sail anstatudol. Byddai hyn yn gyson â'r arfer a fabwysiadwyd i ddibenion rheoli datblygiadau fel y'u nodir yn Rhan IV o Gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/84 a byddai'n sicrhau y gellid ystyried unrhyw gais cysylltiedig am farn yr awdurdod lleol ar fwriad datblygu cysylltiedig ar yr un pryd. Disgwylir i'r corff o'r Goron dan sylw gyflawni gweithdrefnau cyhoeddusrwydd tebyg i'r rhai sy'n ofynnol o dan reoliadau 6-8 yn Rheoliadau 1992, ac ar ôl hynny dylai anfon i'r awdurdod sylweddau peryglus dros yr ardal honno ddau gopi wedi eu cwblhau o Ffurflen 1 yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau - ac yn ysgrifenedig arnynt "Rhybudd o Fwriad Sylweddau Peryglus gan gorff o'r Goron" - ynghyd â'r cynlluniau cysylltiedig. Disgwylir i'r awdurdod sylweddau peryglus gyflawni'r un ymgynghoriadau ag y gwnaent yn achos cais statudol, ac iddo anfon ei farn ar y bwriad i'r corff o'r Goron dan sylw o fewn 8 wythnos ar ôl ei dderbyn, oni chytunwyd ar gyfnod estynedig. Dylid dilyn gweithdrefnau tebyg i'r rhai a nodir ym mharagraffau 19 i 25 o Ran IV o Gylchlythyr 37/84, mewn perthynas â bwriadau datblygu gan gyrff o'r Goron.

96. Pan fydd gan gorff neu berson nad yw o'r Goron fuddran mewn tir y mae gan y Goron hefyd fuddran ynddo, mae'r person neu'r corff hwnnw yn ddarostyngedig i ofynion y rhagamodau ar gyfer rheoli sylweddau peryglus. Fodd bynnag, yn rhinwedd adran 31(2) o Ddeddf 1990, ni all yr awdurdod sylweddau peryglus wneud gorchymyn diddymu neu addasu o dan adran 14; neu gyhoeddi rhybudd tor-rheolaeth o dan adran 24; neu ymgeisio am waharddeb o dan adran 26AA mewn perthynas â thir o'r fath oni cheir cydsyniad yr "awdurdod priodol". Yr awdurdod priodol i'r diben hwn yw'r corff o'r Goron sydd â buddran yn y tir, fel y nodir yn adran 31(5).

97. Gall awdurdod sylweddau peryglus roi caniatâd sylweddau peryglus, o dan adran 32, mewn perthynas â thir y Goron pan ddisgwylir iddo gael ei werthu. Bydd unrhyw ganiatâd a roddir o dan yr adran hon yn berthnasol yn unig i bresenoldeb sylwedd wedi i'r tir beidio â bod yn dir y Goron; neu, cyhyd ag y pery'n dir y Goron, i bresenoldeb sylwedd yn rhinwedd buddran breifat yn y tir.

**GORFODI**

***Dulliau Gorfodi Eraill***

98. Mae sawl cwrs gweithredu ar gael i awdurdod sylweddau peryglus er mwyn gorfodi o dan Ddeddf 1990 er mwyn ymdrin â thoriad ar reolaeth sylweddau peryglus. O dan adran 23 mae toriad o'r fath yn dramgwydd a gall wedyn erlyn o'i herwydd. Fel arall, mae adran 24 yn rhagamodi ar gyfer cyhoeddi rhybudd toriad sylweddau peryglus sy'n nodi'r camau sydd i'w cymryd i gywiro tor-rheolaeth. Ymhellach na hynny, mae adran 26AA, a fewnosodwyd trwy Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991, yn galluogi'r awdurdod sylweddau peryglus i ymgeisio am waharddeb mewn perthynas â thor-rheolaeth wirioneddol neu ddisgwyliedig. Nodir yr amgylchiadau lle y ceir toriad ar reolaeth sylweddau peryglus yn adran 23(2).

99. Mewn achosion lle y mae awdurdod sylweddau peryglus wedi canfod tor-rheolaeth fe ddylai ystyried yn gyntaf, cyn cyhoeddi rhybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus, a yw'n fuddiol ac yn briodol gwneud hynny, gan roi sylw i unrhyw ystyriaeth berthnasol. Pan geir achosion mwy difrifol o dor-rheolaeth, fe allai'r awdurdod sylweddau peryglus fod o'r farn y dylid erlyn yn syth neu ddechrau achos gwahardd yn lle hynny. Neu fe ellid cael achosion - er enghraifft, lle yr oedd tor-rheolaeth yn anfwriadol - lle y gallai fod modd i'r awdurdodau sylweddau peryglus sicrhau camau adfer buan heb droi at weithredu statudol (os oes angen, trwy dynnu sylw'r tramgwyddwr at y pwerau sydd ar gael iddynt). Fodd bynnag, gan fod y meintiau rheoledig o sylweddau peryglus wedi eu pennu ar feintiau sy'n gymaint neu'n fwy na rhai lle yr ystyrir y gallai peryglon sylweddol godi i bobl yn y cyffiniau, neu i'r amgylchedd o gwmpas, fe ddylai'r awdurdodau fod yn ymwybodol o'r risgiau difrifol a allai godi os na chymerir camau prydlon ac effeithiol.

***Tramgwyddau***

100. Mae adran 23(1) o Ddeddf 1990 yn rhagamodi, o dan ddarpariaethau'r adran honno, os ceir tor-rheolaeth sylweddau peryglus, fod y person priodol yn euog o dramgwydd. Mae gweddill yr adran yn pennu pryd y ceir tor-rheolaeth; yn dynodi'r person priodol a allai fod yn euog o dramgwydd; yn nodi cosbau, ac yn rhagamodi ar gyfer amddiffyniadau priodol.

101. Pan fydd sylwedd peryglus yn bresennol mewn maint sy'n gymaint neu'n fwy na'r maint rheoledig heb ganiatâd, neu pan fydd maint y sylwedd sy'n bresennol yn fwy na'r uchafswm a ganiateir gan ganiatâd, bydd unrhyw berson sydd â rheolaeth dros y tir neu unrhyw berson sydd yn achosi'n ymwybodol, neu'n caniatáu, i'r sylwedd fod yn bresennol yn euog o dramgwydd. Pan fo methiant i gydymffurfio ag amod a atodir i ganiatâd, mae'r person sydd â rheolaeth yn euog o dramgwydd. Dylid nodi, pryd y mae'r sawl sy'n cyflawni tramgwydd yn gorfforaeth gorfforedig, fod adran 331 o'r brif Ddeddf (fel y'i cymhwysir trwy adran 37 o Ddeddf 1990) yn

rhagamodi y gellir hefyd erlyn cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu unrhyw swyddog tebyg o'r corff hwnnw yr oedd ei gydsyniad, ei gydgynllwyn neu ei esgeulustod wedi cyfrannu at gyflawni'r tramgwydd.

102. Y gosb fwyaf ar ôl euogfarn ddiannod ar dramgwydd o dan adran 23 yw £20,000, yng ngolwg y newidiadau a wnaed i'r adran honno trwy baragraff 10 o Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991; ac mae'r gosb ar ôl euogfarn ar gyhuddeb yn ddirwy heb uchafswm. Mae isadrannau (5) i (7) o adran 23 yn rhagamodi ar gyfer amddiffyniadau statudol os ceir achos o dan yr adran honno.

***Rhybuddion Tor-rheolaeth Sylweddau Peryglus - Cyffredinol***

103. Mae adran 24 o Ddeddf 1990, fel y'i diwygiwyd trwy Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991, yn rhoi hawl i awdurdodau sylweddau peryglus gyhoeddi rhybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus lle y cafwyd tor-rheolaeth (ac eithrio lle y mae'n ymddangos na ellid osgoi tor-rheolaeth heblaw trwy gymryd camau sy'n gyfystyr â thoriad ar ddyletswydd statudol - cyfeirir at hyn yn adran 24(3)).

104. Cyflawnir tramgwydd os na chydymffurfir â rhybudd torri sylweddau peryglus ar ôl iddo ddod i rym. Fodd bynnag, fe ellir cael oedi cyn y daw rhybudd i rym oherwydd mae'r weithdrefn yn cynnwys hawl i apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn ei ofynion. Oherwydd y canlyniadau difrifol ac uniongyrchol a allai ddeillio o bresenoldeb sylwedd peryglus heb awdurdod, mae'r darpariaethau yn adran 23 parthed tramgwyddau yn galluogi'r awdurdod sylweddau peryglus, pan fydd yn sicr fod tor-rheolaeth wedi ei gyflawni'n ymwybodol, i ddod â thramgwyddwr gerbron llys yn gymharol gyflym, os yw o'r farn fod camau o'r fath er budd y cyhoedd.

105. Mae darpariaethau adran 24 wedi eu modelu, i'r graddau priodol, ar y rhai sy'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyhoeddi rhybuddion gorfodaeth cynllunio, fel y nodir yn adrannau 172 i 173 yn y brif Ddeddf. Ymhellach na hynny, mae'r darpariaethau sy'n berthnasol i apelau yn erbyn rhybuddion tor-rheolaeth sylweddau peryglus a phenderfynu ar apelau o'r fath hefyd yn debyg i'r rhai parthed apelau yn erbyn rhybuddion gorfodaeth cynllunio. Yn unol â'r pwerau galluogi yn adran 25 o Ddeddf 1990, mae Rheoliadau 1992 yn cymhwyso darpariaethau adrannau 174 i 181, a 188, o'r brif Ddeddf gydag addasiadau priodol. Rhoddir cyfarwyddyd manylach am weithrediad yr adrannau hyn, fel y'u newidiwyd trwy Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991 yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/97.

***Gorfodi - Cysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch***

106. Cyfrifoldeb yr awdurdodau sylweddau peryglus yw gorfodi cyfyngiadau ar ganiatâd sylweddau peryglus. Fodd bynnag, fe ddylent gysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lle:

a) yr ymddengys fod sylweddau peryglus yn bresennol yn groes i'r cyfyngiadau mewn amgylchiadau sy'n achosi pryderon ynghylch iechyd a diogelwch, lle y bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dymuno ystyried a yw camau gorfodi hefyd yn briodol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 ;

b) y mae angen cadarnhau na fyddai gofynion rhybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus yn groes i ofynion y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch : neu

c) y mae cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar risg gweddillol yn debygol o effeithio ar y camau sydd i'w cymryd.

Sut bynnag, lle y cyhoeddir rhybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus, gofynnir i awdurdodau anfon copi o'r rhybudd i Swyddfa Ranbarth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er gwybodaeth.

***Cyhoeddi a Chyflwyno Rhybudd Tor-rheolaeth Sylweddau Peryglus***

107. Yn rhinwedd adran 24 o Ddeddf 1990 a rheoliad 17 o Reoliadau 1992, rhaid i rybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus-

a) ddynodi'r tir y mae'n ymwneud ag ef, boed trwy gyfeirio at gynllun neu fel arall;

b) nodi'r toriad honedig ar reolaeth sylweddau peryglus;

c) mynnu y cymerir camau i gywiro, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, y toriad ar reolaeth (a allai gynnwys symud y sylwedd o'r tir);

d) dynodi'r dyddiad pryd y daw i rym, na fydd yn llai na 28 niwrnod oddi ar ddyddiad cyflwyno'r copïau o'r rhybudd; a

e) dynodi cyfnod pellach pryd y mae pob cam cywiro gofynnol i'w gyflawni.

Ymhellach na hynny, rhaid rhoddi datganiad wrth gyflwyno'r rhybudd sy'n rhestru rhesymau'r awdurdod sylweddau peryglus dros gyflwyno'r rhybudd, ac yn rhoi gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol.

108. Mae Adran 24 a Rheoliad 17 yn rhagamodi y bydd rhaid cyflwyno copi o rybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus i'r rhai canlynol:-

a) perchennog y tir y mae'n ymwneud ag ef;

b) unrhyw un arall heblaw'r perchennog yr ymddengys i'r awdurdod sylweddau peryglus ei fod â rheolaeth dros y tir; ac

c) unrhyw un arall sydd â buddran yn y tir a effeithir yn sylweddol gan y rhybudd, ym marn yr awdurdod sylweddau peryglus.

109. O dan Adran 24(8), fel y'i diwygiwyd trwy Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991, gall yr awdurdod sylweddau peryglus dynnu'n ôl rhybudd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl iddo ddod i rym. Pan wnânt hynny, dylent roi gwybod ar unwaith am y tynnu'n ôl i bob un y cyflwynwyd copi o'r rhybudd iddo, neu y cyflwynid rhybudd iddo pe ailgyhoeddid y rhybudd.

***Apelau yn Erbyn Rhybuddion Tor-rheolaeth Sylweddau Peryglus***

110. Gall unrhyw un a chanddo fuddran yn y tir y mae'r rhybudd yn ymwneud ag ef, neu feddiannwr perthnasol, apelio i'r Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn y rhybudd, pa un a gyflwynwyd copi ohono iddo ai peidio. (Ystyr "meddiannwr perthnasol" yw person sydd, ar y dyddiad pryd y cyflwynir y rhybudd, yn meddiannu'r tir yn rhinwedd trwydded ac yn parhau i feddiannu'r tir yn y modd hwnnw pryd y gwneir yr apêl). Rhaid cyflwyno'r apêl cyn i'r rhybudd ddod i rym, a gellir ei wneud ar unrhyw un o'r seiliau a restrir ym mharagraff 1(b) o Atodlen 4 i Reoliadau 1992.

**Imiwnedd trosiannol**

111. Mae adran 26 o Ddeddf 1990, fel y'i diwygiwyd trwy Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991, yn rhagamodi na chyflawnir tramgwydd o dan adran 23 ac na ellir cyflwyno rhybudd tor-rheolaeth sylweddau peryglus yn yr amgylchiadau a ddynodir yn ystod cyfnod trosiannol o chwe mis ar ôl dechrau'r cyfyngiadau newydd. Yn ymarferol, mae'r rhyddhadau trosiannol yn yr adran hon yn berthnasol lle'r oedd y sylwedd yn bresennol ar, dros neu o dan y tir yn ystod y cyfnod sefydlu a lle na fu'r sylwedd yn bresennol yn ystod y cyfnod trosiannol mewn maint sy'n fwy mewn cyfanswm na'r maint sefydledig.

112. Yr un ystyron sydd i "cyfnod sefydlu", "maint sefydledig", "dyddiad perthnasol" a "cyfnod trosiannol" ag yn adran 11, fel ag y cymhwyswyd gan Reoliad 4(2) o Reoliadau 1999, sy'n ymwneud â chaniatâd tybiedig.

**Goblygiadau i Awdurdodau Lleol o ran eu Cyllid a'u Llafurlu**

113. Bydd costau gweinyddu'r weithdrefn caniatáu yn amrywio rhwng un awdurdod lleol a'r llall, gan fod tuedd i sefydliadau sy'n trin sylweddau peryglus fod yn fwy niferus mewn rhai ardaloedd. Yn ôl yr hyn a welwyd yn ystod y chwe blynedd pryd y gweithredwyd yr weithdrefn caniatáu sylweddau peryglus (ar gyfartaledd, ni dderbyniwyd mwy na 5 cais newydd am ganiatâd sylweddau peryglus bob blwyddyn drwy Gymru), bernir mai dibwys fydd yr effaith ar y rhan fwyaf o awdurdodau.

**MS K S POWELL**
Pennaeth yr Is-adran Gynllunio

Y Prif Weithredwr: )
Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol )
Swyddog y Parc Cenedlaethol ) yng Nghymru
Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol )

(Cyfeirnod:A-PAA 17/01/014)

## ATODIAD A

## PERTHYNAS CYFYNGIADAU SYLWEDDAU PERYGLUS Â CHANIATÂD CYNLLUNIO A CHYFYNGIADAU ERAILL

### *Rôl Ymgynghorol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch*

A1. Rôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn y system cynllunio defnydd tir yw rhoi cyngor i awdurdodau lleol ar natur a difrifoldeb y risgiau a geir trwy beryglon sylweddol i bobl yn y cyffiniau fel y gellir rhoi pwys dyledus ar y risgiau hynny, wrth eu pwyso yn erbyn ystyriaethau cynllunio eraill, wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Cydnabyddir y rôl hon yng ngofynion Erthygl 10 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol[14] i ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch:

> datblygiadau arfaethedig sy'n ymwneud â lleoli sefydliadau newydd lle y gallai sylweddau peryglus fod yn bresennol; neu
>
> addasiadau i sefydliadau presennol a allai gael effaith sylweddol ar beryglon damweiniau sylweddol; neu
>
> ddatblygiad arfaethedig sydd yng nghyffiniau sefydliadau a phiblinellau peryglus presennol lle y mae'r lleoli'n gyfryw ag i gynyddu risg neu ganlyniadau damweiniau sylweddol; neu
>
> ddatblygiad o fewn ardal y mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol amdano oherwydd presenoldeb sylweddau peryglus ac sy'n ymwneud â llety preswyl, neu dros 250 metr sgwâr o lawr adwerthu, neu dros 500 metr o lawr swyddfa, neu fwy na 750 metr o lawr at ddibenion diwydiannol, neu a fyddai, mewn rhyw ffordd arall, yn debygol o gynyddu'n sylweddol nifer y bobl sy'n gweithio yn yr ardal yr hysbyswyd amdani neu'n ymweld â hi.

Mae gofyniad hefyd i ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch pob cais am ganiatâd sylweddau peryglus. Gall yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch roi ei gyngor fesul achos neu, yn achos rhai cynigion symlach, trwy gyhoeddi cyfarwyddyd generig.

A2. Pryd yr ymgynghorir â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch datblygiadau yng nghyffiniau safleoedd lle y ceir perygl damweiniau sylweddol, dylid hefyd roi iddo fap 1/10,000 a'r datblygiad a'r safle/piblinell wedi eu nodi'n eglur arno. Yn ogystal â hynny, bydd angen rhoi copïau o ffurflenni/cynlluniau'r cais a'r pellter mewn metrau rhwng y datblygiad a therfyn y safle/piblinell perygl sylweddol.

A3. Rôl ymgynghorol sydd ganddo. Nid oes ganddo hawl i wrthod caniatâd cynllunio neu ganiatâd sylweddau peryglus yn uniongyrchol. Pan fydd yr Awdurdod

[14] fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 6 o Reoliadau Cynllunio (Rheoli Peryglon Damweiniau Sylweddol) 1999 (OS 1999/1981)

Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cynghori fod lle i wrthod cais, neu roi amodau arno, ar sail iechyd a diogelwch, fe fydd, os gofynnir iddo, yn egluro'r rhesymau dros ei gyngor i'r awdurdod cynllunio lleol neu'r awdurdod sylweddau peryglus. Pan fo'r cyngor hwnnw'n berthnasol i unrhyw apêl sy'n dilyn, mae'n barod i ddarparu tystiolaeth arbenigol mewn unrhyw ymchwiliad lleol.

A4. Mae cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch parthed datblygiadau arfaethedig yng nghyffiniau sefydliadau peryglus yn seiliedig ar yr egwyddorion cyffredinol canlynol:

y risg a ystyrir yw'r risg gweddillol sy'n aros ar ôl cymryd pob cam rhesymol ymarferol i sicrhau cydymffurfiad â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb. 1974 a'i darpariaethau statudol perthnasol;

pan fo'n fanteisiol gwneud hynny, bydd cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cymryd i ystyriaeth y risg yn ogystal â'r perygl - sef tebygolrwydd damwain yn ogystal â'i chanlyniadau;

cymerir i ystyriaeth maint a natur y datblygiad arfaethedig, hyglwyfedd cynhenid y boblogaeth sy'n agored iddo a hwylustod gwacáu'r ardal a gweithdrefnau argyfwng eraill. Ystyrir rhai categorïau datblygu (e.e. ysgolion ac ysbytai) yn rhai sy'n fwy sensitif nag eraill (e.e. diwydiannau ysgafn). Bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn pwysoli eu cyngor yn unol â hynny, fel y gall gynghori awdurdodau cynllunio ar raddoliad y defnydd tir o amgylch peryglon sylweddol; a

bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystyried risg anaf difrifol, yn cynnwys marwolaethau, gan roi pwys arbennig ar y risg lle y gallai datblygiad arfaethedig arwain at nifer fawr o farwolaethau os ceir damwain.

A5. Yng ngolwg arbenigaeth gydnabyddedig yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wrth asesu'r risgiau oddi ar safleoedd oherwydd defnyddio sylweddau peryglus, ni ddylid diystyru unrhyw gyngor ganddo i wrthod caniatâd cynllunio i ddatblygu ar neu gerllaw sefydliad neu biblinell beryglus, neu i wrthod caniatâd sylweddau peryglus, heb roi'r ystyriaeth fwyaf gofalus. Pan fydd awdurdod cynllunio lleol neu awdurdod sylweddau peryglus o blaid rhoi caniatâd cynllunio neu ganiatâd sylweddau peryglus yn groes i gyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dylai roi rhybudd ymlaen llaw i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am y bwriad hwnnw, a chaniatáu 21 diwrnod oddi ar y rhybudd hwnnw i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch roi ystyriaeth bellach i'r mater. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystyried a ddylai ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol alw i mewn y cais i'w ystyried ganddo.

A6. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn parhau i weithredu'r hawl i alw i mewn geisiadau cynllunio mewn modd dewisol iawn. Yn gyffredinol, ni elwir ceisiadau i mewn oni bai eu bod yn codi materion cynllunio sydd o bwys ehangach nag i'r ardal leol yn unig, yn cynnwys materion diogelwch sy'n peri pryder eithriadol neu faterion cynllunio sylweddol eraill. Bydd y galw i mewn ar geisiadau am ganiatâd

sylweddau peryglus yn ddewisol yn yr un modd. Yn unol â'r polisi hwn, bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystyried fod ei rôl wedi ei chyflawni pan fydd yn sicr fod yr awdurdod lleol yn gweithredu gan lwyr ddeall y cyngor a dderbyniwyd a'r canlyniadau a allai ddilyn, ac ni fydd yn ystyried argymell galw i mewn ceisiadau ac eithrio mewn achosion sy'n peri pryder eithriadol neu lle y mae materion polisi pwysig yn y fantol.

A7. Bydd cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i awdurdodau lleol ar ddatblygiadau arfaethedig yng nghyffiniau sefydliadau peryglus yn rhoi sylw i'r maint mwyaf o sylwedd peryglus a ganiateir gan ganiatâd sylweddau peryglus ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrtho.

A8. Pan ddaw sefydliad o fewn cwmpas yr weithdrefn caniatáu sylweddau peryglus am y tro cyntaf, o ganlyniad i hawliad am ganiatâd tybiedig, bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dymuno penderfynu, a hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol am, bellter ymgynghorol sy'n cynnwys yr ardal y dylid ei hysbysu am ddatblygiad arfaethedig y tu mewn iddi yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd angen rhai newidiadau hefyd yn y pellterau ymgynghorol o amgylch safleoedd y rhoddwyd caniatâd iddynt eisoes ar gyfer presenoldeb sylweddau peryglus, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn eithriadau. Oherwydd nifer posibl y safleoedd, mae'n bosibl y byddai angen cryn amser i hysbysu awdurdodau cynllunio am gylchfâu ymgynghori newydd. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau cynllunio sy'n derbyn ceisiadau am ganiatâd tybiedig yn ystyried mai doeth fyddai cysylltu â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch goblygiadau cynlluniau datblygu.

A9. Mae'n ofynnol i awdurdodau sylweddau peryglus roi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac ymgyngoredigion statudol eraill, am eu holl benderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus. Yn yr un modd, fe ddylai awdurdodau cynllunio lleol hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am yr holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yr ymgynghorwyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn eu cylch. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i roi cyngor cytbwys ar geisiadau yn y dyfodol am ganiatâd sylweddau peryglus neu ganiatâd cynllunio ar y safle neu yn ei gyffiniau.

### *Piblinellau*

A10. Nid yw'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ffurfiol ar gyfer adeiladu piblinell danddaearol (o unrhyw hyd) gan gludydd nwy cyhoeddus, yng ngolwg yr hawliau datblygu caniataëdig a roddir gan Ddosbarth F yn Rhan 17 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Caniataëdig Cyffredinol) 1995 (GDCC). Un o amodau'r caniatâd o dan GDCC yw fod rhaid rhoi o leiaf 8 wythnos o rybudd yn ysgrifenedig ymlaen llaw i'r awdurdod cynllunio lleol am fwriad i osod piblinell hysbysadwy (fel y'i diffinnir yn Erthygl 1 o'r GDCC). Pan nad yw'r datblygwr yn gludydd nwy cyhoeddus, gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant roi caniatâd cynllunio tybiedig i biblinell draws-gwlad (o 10 milltir neu fwy) pan awdurdodir hynny o dan Adran 1 o Ddeddf Piblinellau 1962. Yn achos piblinell leol cyflenwr preifat (o lai na 10 milltir) bydd angen ymgeisio am ganiatâd cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol yn y modd arferol.

A11. Pan fo bwriad i adeiladu piblinell a fydd yn cludo hylif peryglus fel y'i diffinnir yn Atodlen 2 i Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996, a phan fo'n ofynnol sicrhau caniatâd cynllunio ffurfiol, fe ddylai'r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

***Ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Ynghylch Datblygu Arfaethedig Yng Nghyffiniau Sefydliadau Peryglus***

A12. Mae Erthygl 10 (l) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch rhai bwriadau penodedig i ddatblygu tir o fewn ardal a hysbyswyd iddynt gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch oherwydd presenoldeb sylweddau gwenwynig, adweithiol iawn, ffrwydrol neu fflamadwy yn y cyffiniau. Ymhlith y mathau o ddatblygu o fewn y parth ymgynghori y mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dymuno ymgynghori yn eu cylch y mae pob datblygiad preswyl; datblygiad adwerthu, swyddfa a diwydiannol uwchlaw'r lefelau llawr a ddynodir ym mharagraff (d) a'r tabl yn Erthygl 10; ac unrhyw ddatblygiad arall sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n gweithio o fewn neu'n ymweld â'r ardal a hysbyswyd. Parthed y categori olaf a grybwyllwyd, dylid rhoi sylw arbennig i ddatblygiadau sy'n ymwneud â'r sectorau mwyaf agored i niwed yn y gymuned, fel rhai ifanc iawn, pobl sâl neu'r henoed; gwestyau a datblygiadau eraill lle y gallai pobl fod yn anghyfarwydd â'u hamgylchoedd; a datblygiadau hamdden a difyrrwch a allai arwain at fod nifer fawr o bobl yn ymgynnull mewn un lle.

A13. Mae diwygiad i'r GDCC (gweler Erthygl 10 (zb)) yn ymestyn y gofyniad ar awdurdodau cynllunio lleol i ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac, mewn achosion priodol, yng Nghymru, â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch datblygu sy'n cynnwys:

> lleoli sefydliadau newydd; neu
>
> sy'n cynnwys addasiadau i sefydliadau presennol a allai effeithio'n sylweddol ar beryglon damweiniau sylweddol; neu;
>
> ddatblygiad, yn cynnwys cysylltiadau trafnidiaeth, lleoliadau a fynychir gan y cyhoedd ac ardaloedd preswyl yng nghyffiniau sefydliadau presennol, lle y mae'r lleoli neu'r datblygiad yn gyfryw ag i gynyddu risg neu ganlyniadau damwain sylweddol.

A14. Bwriedir y darpariaethau ychwanegol hyn i sicrhau cydymffurfiad â gofynion cynllunio defnydd tir Cyfarwyddeb y Cyngor 96/82/EC ar reoli peryglon damweiniau sylweddol. Mae'n bosibl y gallai datblygiadau arfaethedig sydd o fewn cwmpas Erthygl 10 (zb) fod yr un â'r rhai sydd o fewn cwmpas Erthygl 10(d); ond wrth ystyried datblygu arfaethedig ac wrth ymgynghori ynghylch y cynigion hynny, cyfrifoldeb yr awdurdodau cynllunio yw cael sicrwydd fod gofynion y ddau is-baragraff wedi eu cyflawni. Fel y'i defnyddir yn Erthygl 10 (zb) o'r GDCC, yr un fydd ystyr y term "sefydliad" â'r ystyr yn y Gyfarwyddeb.

A15. Bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn parhau i hysbysu awdurdodau cynllunio lleol am “barthau ymgynghori” o amgylch safleoedd lle y mae sylweddau peryglus yn bresennol. Yn ymarferol, bydd hyn yn cynnwys yr holl sefydliadau sy’n ddarostyngedig i’r Rheoliadau COMAH; piblinellau y rhoddwyd gwybod amdanynt i’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Diogelwch Piblinellau 1996; a ffatrïoedd ffrwydron ac arfdai trwyddedig, tir o amgylch porthladdoedd a safleoedd eraill a drwyddedir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Ddeddf Ffrwydron 1875 neu Ran IX o Reoliadau Sylweddau Peryglus yng Nghyffiniau Porthladdoedd 1987. Y parth ymgynghori yw terfyn yr ardal lle y mae’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o’r farn fod risg sylweddol i bobl.

A16. Bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn parhau i adolygu’r parthau ymgynghori ac yn hysbysu’r awdurdod cynllunio lleol os yw newidiadau yn briodol. Yn yr un modd, fe ddylai’r awdurdod cynllunio lleol gysylltu â’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch os bydd yn ymwybodol o newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar y parth ymgynghori.

***Safleoedd niwclear***

A17. Gyda golwg ar ddatblygiadau arfaethedig yng nghyffiniau sefydliadau niwclear trwyddedig, fe all y gofynion ymgynghori amrywio rhwng un safle a’r llall. Felly, fe barheir i gymhwyso’r trefniadau gweinyddu presennol lle y bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn pennu parth ymgynghori berthnasol i bob safle a’r math o ddatblygiadau y dylid ymgynghori â hwy yn eu cylch.

A18. Pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn ansicr a ddylid ymgynghori â’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn achos penodol, fe’i cynghorir i gysylltu â Swyddfa Ranbarth briodol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

***Cyfleusterau ffrwydron trwyddedig***

A19. Mae’r trefniadau uchod ar gyfer ymgynghori yn berthnasol i ddatblygu yng nghyffiniau ffatrïoedd ffrwydron trwyddedig, arfdai a phorthladdoedd. Mae ffrwydron sy’n bresennol mewn ffatrïoedd ffrwydron ac arfdai a reolir trwy drwyddedau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unol â darpariaethau cydsynio Deddf Ffrwydron 1875 heb eu cynnwys yn y rhestr o sylweddau peryglus sy’n ddarostyngedig i’r gofynion cydsynio. (Fodd bynnag, mae’r rhai sy’n bresennol ar safleoedd a drwyddedwyd gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Ffrwydron 1875 yn ddarostyngedig i’r gofynion cydsynio.) Mae porthladdoedd lle y trafodir ffrwydron wedi eu rheoli trwy drwyddedau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Sylweddau Peryglus yng Nghyffiniau Porthladdoedd 1987 ac nid ydynt yn ddarostyngedig i’r gofynion cydsynio. Mae pob trwydded yn rhagamodi, ymysg pethau eraill, y bydd pob man lle y cedwir neu lle y trafodir ffrwydron wedi ei wahanu oddi wrth adeiladau eraill a feddiennir. Mae’r “pellter diogelwch” hwn yn amrywio yn ôl y mathau a’r meintiau o ffrwydron sy’n bresennol. Nid yw bodolaeth trwydded sy’n pennu pellterau diogelwch penodol ynddi ei hun yn atal adeiladu neu weithgareddau o fewn y pellterau hynny. Lle y bydd datblygu o’r fath yn digwydd,

fodd bynnag, fe allai olygu gosod cyfyngiadau pellach ar y trwyddedai i'r graddau y gallai gweithrediadau gyda ffrwydron ddod yn amhroffidiol.

A20. Felly, bydd trwyddedeion yn effro, fel arfer, i unrhyw ddatblygiad sy'n digwydd neu sy'n fwriedig yng nghyffiniau eu heiddo ac a allai effeithio'n ddifrifol ar eu gweithrediadau. Fodd bynnag, fel y gall yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod yn ymwybodol, yn gynnar, o'r posibiliad o ymyrryd â'r pellterau diogelwch, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch ceisiadau i ddatblygu yng nghyffiniau ffatrïoedd ffrwydron trwyddedig, arfdai a phorthladdoedd, lle y mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi eu hysbysu am barth ymgynghori. Ar ôl derbyn trwydded, mae'n ofynnol i drwyddedigion porthladdoedd a phob ffatri ac arfdy newydd, a rhai ffatrïoedd ac arfdai presennol, baratoi ac anfon map gwarchod i'r awdurdod cynllunio lleol. Ar y map bydd llinellau porffor, melyn a gwyrdd. Yng nghyd-destun cyngor a roddir gan Arolygwyr Ffrwydron yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i awdurdodau cynllunio lleol o bryd i'w gilydd, y llinell borffor yw terfyn y pellter ymgynghori; bydd Band 3 rhwng y llinellau porffor a melyn; bydd Band 2 rhwng y llinellau melyn a gwyrdd; bydd Band 1 rhwng y llinell werdd a therfyn y safle (mewn du fel arfer). Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau i Swyddfa Ranbarth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

A21. Mae ffrwydron sy'n bresennol ar safleoedd a drwyddedwyd gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Ffrwydron 1875 yn destun y gofynion o ran cael caniatâd. Mae'n annhebygol y bydd swm y ffrwydron sy'n bresennol ar y safleoedd hyn yn fwy na'r swm rheoledig ar gyfer sylweddau ffrwydrol. Fel arfer, ni fydd angen caniatâd sylweddau peryglus ar gyfer y sylweddau hyn os ydynt ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, os oes yno sylweddau peryglus eraill hefyd mae'n bosibl y bydd angen caniatâd sylweddau peryglus.

### *Cyfrinachedd*

A22. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o ddarpariaethau adran 28 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb. 1974 sy'n gosod cyfyngiadau ar ddatgelu rhai eitemau o wybodaeth heb gydsyniad y sawl a roddodd yr wybodaeth. Cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ar sail profiad y blynyddoedd diwethaf hyn, yw ei bod yn annhebygol y ceir llawer o achosion pryd y bydd datgelu gwybodaeth yn peri problemau. Er hynny, os yw awdurdod yn ansicr a oedd y cyfyngiadau hyn yn berthnasol i wybodaeth benodol ar yr adeg y'i darparwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dylid gofyn am gyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

***Y rhan a gymerir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn apelau yn erbyn penderfyniadau anffafriol ar geisiadau cynllunio a chaniatâd sylweddau peryglus***

A23. Lle yr hysbysir awdurdod cynllunio lleol am apêl parthed cais am ganiatâd sylweddau peryglus, neu parthed cais am ganiatâd cynllunio am ddatblygiad peryglus neu am ddatblygiad yng nghyffiniau sefydliad peryglus neu biblinell yr ymgynghorwyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Datblygu yn ei gylch cyn hynny (gweler uchod), fe ddylai roi gwybod ar unwaith i Swyddfa Ranbarth briodol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Os yw'r apêl, neu'r apelau cynllunio a chaniatâd sylweddau peryglus cysylltiedig, i'w trafod trwy gyfnewid sylwadau ysgrifenedig, dylid atodi copi o unrhyw gyngor oddi wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (heblaw am gyngor na ellir ei ddatgelu - gweler paragraff A22 uchod) i ddatganiad achos yr awdurdod. Yn achos apelau a wrandewir mewn ymchwiliad, ni fydd cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn golygu datganiad o farn o fewn ystyr rheol 12 o Reolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn ymchwiliadau) 1992[15]. Fodd bynnag, fe fydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn barod i ddarparu tyst mewn unrhyw ymchwiliad lleol i ateb cwestiynau ar unrhyw gyngor a roddwyd a dylid felly ei hysbysu'n gynnar am drefniadau ymchwiliad lleol. Dylid dyfynnu unrhyw gyngor a dderbynnir oddi wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, boed ar adeg y cais neu wrth ymgynghori ar adeg yr apêl (heblaw am gyngor na ellir ei ddatgelu) yn y datganiad a gyflwynir gan yr awdurdod o dan reol 6(1) o Reolau 1992. Dylid cynnwys nodyn sy'n datgan y bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn barod i drefnu fod cynrychiolydd ar gael yn yr ymchwiliad os yw'r apelydd yn gofyn hynny mewn ysgrifen i'r Cynulliad Cenedlaethol nid hwyrach na 14 diwrnod cyn dyddiad yr ymchwiliad. Dylid anfon copi o'r datganiad i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ar yr un adeg ag y'i cyflwynir.

[15] OS 1992 Rhif 2038. Mae'r Rheolau hyn yn berthnasol i apelau cynllunio sydd i'w penderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Rheolir apelau cynllunio sydd i'w penderfynu gan Arolygwyr gan Reolau Apelau Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfyniadau gan Arolygwyr) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1992 (OS 1992 Rhif 2039). Nid yw'r naill set o Reolau na'r llall yn ffurfiol berthnasol i apelau mewn perthynas â chaniatâd sylweddau peryglus ond, fel yr eglurir ym mharagraff o Atodiad A, y bwriad yw cymhwyso ysbryd y Rheolau lle y mae ymchwiliad i'w gynnal.